# tafod elái

TACHWEDD 2023

Rhif 382

Pris £1

## Eisteddfod Genedlaethol 2024

Diolch yn fawr iawn i bawb am yr holl weithgareddau codi arian sy'n digwydd ar draws yr ardal. Diolch yn fawr iawn i'r Fenter Iaith am roi'r holl bosteri mewn trefn gronolegol ar eu gwefan nhw: Digwyddiadau / Events - Menter Iaith RCT. Felly, cofiwch anfon eich posteri at Marged – marged@menteriaith.cymru. Diolch hefyd i Bethan Ford am greu calendr ar FaceBook.

Mae'n dda gallu cyhoeddi mai Gavin Ashcroft fydd ail is-gadeirydd yr Eisteddfod, yn gyfrifol am yr ochr ddiwylliannol. Mae'r Pwyllgorau Testun i gyd wrthi'n brysur yn llunio'r rhaglen ar gyfer y Maes ar hyn o bryd. Bydd pob pwyllgor yn dod at ei gilydd ddydd Sadwrn, 2 Rhagfyr ym Mhrifysgol De Cymru yn Nhrefforest. Croeso i bawb. Cofiwch roi gwybod os ydych chi eisiau bod yn rhan o'r gwaith yma.

Dim ond mis sydd ar ôl gyda ni i werthu tocynnau'r Raffl Fawr. Mae rhai tocynnau ar ôl os gellwch chi helpu eu gwerthu. Byddwn ni'n tynnu'r Raffl yn Noson Elvis yn Yr Hen Lyfrgell yn Y Porth nos Wener, Rhagfyr 1af.

Rhowch wybod os oes unrhyw beth yr hoffech i fi ei wneud.

Helen Prosser (Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Rhondda Cynon Taf)



Taith Gerdded Abercynon arweiniwyd gan Lisa Williams



Elvis yn denu'r gynulleidfa yn Nhonyrefail

## Atgofion am Bethlehem

Magwyd yr Athro Prys Morgan yn Radyr gyda'i frawd, y diweddar Rhodri Morgan, a bu'r ddau yn selogion yng nghapel Bethlehem, Gwaelod y Garth yn ystod y cyfnod 1940 - 1960. Wrth i'r capel ddathlu 150 mlynedd gwahoddwyd Prys Morgan i hel atgofion am gyfnod ei fagwraeth yng nghyfarfod o Gylch Cadwgan ar 26 Hydref.

Roedd festri'r capel yn llawn a chafwyd gwledd o atgofion difyr a doniol am fywyd ym mhentref Gwaelod y garth. Bu'n sôn am ddylanwad teulu'r Phillipiaid ar y pentref. Roedd John Phillips, Fferm y Lan, wedi magu 14 o blant. Roedd y teulu yn ystyried eu hunain yn un o deuluoedd 'deche' y pentref ac roedd y 'wthien fawr' o Phillipiaid wedi cael swyddi breision ym myd masnach yng Nghaerdydd a bu'r teulu yn rhan annatod o lwyddiant capel Bethlehem.



Y Parch R.G.Berry oedd gweinidog Bethlehem am dros hanner canrif a phriododd i mewn i deulu'r Phillipiaid. Bu'n annog y capel i berfformio dramâu er bod rhai o'r gynulleidfa yn ddrwgdybus iawn o'r fath adloniant. John Phillips, Tŷ Newydd, oedd yn bennaf gyfrifol am y capel a llwyddai i redeg popeth yn dawel iawn heb gynnwrf.

Cynhaliwyd seiat yn nhŷ Nancy Millward yn aml ar fore Sul ar ôl yr oedfa ac un tro cyflwynodd Arthur Phillips lythyr i Prys Morgan gan y dramodydd Samuel Beckett gan ei annog i'w gadw'n saff. Tra'n twrio yn yr atig eleni daeth Prys Morgan ar draws y llythyr ac wrth sylweddoli ei werth penderfynodd ysgrifennu erthygl i 'O'r Pedwar Gwynt' am ei atgofion o Waelod y garth. Drwy ryfedd wyrth ar yr un pryd daeth llythyr o Fethlehem yn ei wahodd i hel atgofion i Gylch Cadwgan. Roedd rhaid iddo felly dderbyn y gwahoddiad a gwerthfawrogodd y gynulleidfa ei atgofion byw am gymeriadau a bwrlwm y capel a'r pentref.

## TONYREFAIL

*Gohebydd Lleol:*
*Helen Prosser*
prosserh@btinternet.com

**Pwyllgor Codi Arian Eisteddfod 2024**

Cafwyd noson wych yng Nghlwb y Glowyr, Tonyrefail yng nghwmni Elvis. Cyn i Elvis ganu, cawson ni hwyl yn chwarae bingo. Roedd y clwb yn llawn a chodon ni dros £700. Bydd Elvis yn canu eto yn Yr Hen Lyfrgell yn Y Porth nos Wener, 1 Rhagfyr. Mae'r tocynnau ar werth nawr.

Mae nifer o weithgareddau ar y gweill. Croeso i bawb:

11 Tachwedd Bore Coffi a Chrefftau Nadolig, Capel Salem, 11.30am

11 Tachwedd Noson Rasys Ceffylau, Ye Olde Ogmore, Gilfach Goch, 7pm

3 Rhagfyr Stondin yn Ffair Nadolig Tonyrefail

2 Mawrth Catsgam a Dim Problem yng Nghlwb y Glowyr

**Paned a Sgwrs**

Mae caffi newydd 'Ar Ben y Byd' wedi agor yn Mill Street a chynhelir grŵp sgwrsio Cymraeg am 1pm bob yn ail ddydd Mercher. Bydd sesiynau mis Tachwedd ar 8 a 22 Tachwedd. Dewch i gael sgwrs.



# tafod elái


*GOLYGYDD*
*Penri Williams*
*029 20890040*

*CYHOEDDUSRWYDD*
*Colin Williams*
*029 20890979*

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Rhagfyr
i gyrraedd erbyn
1 Rhagfyr 2023

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
**e-bost**
pentyrch@tafelai.com

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafodelai.cymru**

*Argraffwyr:*
EVANPRINT
*www.evanprint.co.uk*



CYMRAEG
*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*



**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**




## CLWB Y DWRLYN

**Huw Llywelyn Davies**
yn holi
**Helen Prosser,**
Cadeirydd Eisteddfod
Rhondda Cynon Taf
*8yh Nos Iau,*
*16 Tachwedd*
*Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch*

---

**Noson Gerddorol**
gyda
**Heledd Wynne-Newton**

*8yh Nos Iau,*
*7 Rhagfyr*
*Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch*

**Mynediad drwy Aelodaeth £15**
**neu £5 i ymwelwyr**
**Manylion oddi wrth:**
**clwbydwrlyn@pentyrch.cymru**

## Gwledd yr Ŵyl

**CÔR**
**Arweinydd: Osian Rowlands**
**Cyfeilydd: Jeffrey Howard**
**Gyda Glyndŵr Brass**

**Eglwys Gatholig St Helen, Caerffili**
**7.30yh 15 Rhagfyr 2023**

**Tocynnau: £10 –**
**osian_llyr@hotmail.com**
**Elw – Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024**

**Sesiwn Nadolig**
Noson o ganu yn y Carpenters yn Efail Isaf wrth i dymor y Nadolig ddechrau - dewch ag offeryn, dewch i ganu neu dewch i wrando. Mae'r mynediad am ddim ond plîs dewch ag arian parod oherwydd mi fyddwn ni'n codi arian i Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Croeso cynnes i bawb!












# Ar drywydd llên yn Rhondda Cynon Taf

## Coed Glyn Cynon

Mae Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf yn carlamu tuag atom. Mae Eisteddfod, wrth gwrs, yn golygu gwahanol bethau i bob un ohonom, ond wrth galon yr Ŵyl o'r dechrau bu 'cerdd dafod' a 'cherdd dant' neu, mewn geiriau eraill, llenyddiaeth a cherddoriaeth. 'Wel,' meddwn i wrth ein golygydd, 'beth am rywbeth yn *Tafod Elái* am y bobl fu wrthi'n llenydda yn Rhondda Cynon Taf?' 'Iawn,' meddai yntau, 'mae gen ti wyth rhifyn!'

Felly yn ôl â ni drwy'r canrifoedd a glanio yng Nghwm Cynon yn yr unfed ganrif ar bymtheg (15??). Roedd y cwm yn hardd a choediog, ond roedd sŵn diwydiant yn y gwynt. Cyn darganfod glo, llosgi coed i gael golosg i doddi haearn oedd y drefn. O Loegr, daeth diwydianwyr a throi eu golygon tuag at goedwig hardd Glyn Cynon. Torrwyd y coed gan beri torcalon i un bardd o Gymro a ganodd alargan i 'Goed Glyn Cynon'.

Mae hi'n gerdd grefftus sy'n llawn teimlad, ac o'i darllen heddiw mae hi'n swnio'n rhyfedd o gyfoes. Mae'r bardd yn rhestru sawl peth a gollwyd trwy dorri'r coed – harddwch, llety 'rhag estron', lle i gariadon gwrdd, ond hefyd cartref i fywyd gwyllt, yn adar gwylltion, ac yn anifeiliaid fel yr iwrch a'r ewig a'r 'ceirw cochion' y bu'n rhaid iddynt ffoi 'i ddugoed Mawddwy'.

Mae dicter y bardd yn erbyn anfadwaith y Saeson yn gryf. Ond nid yw'r gerdd heb ei hiwmor. Mae'r bardd am i gwest gael ei gynnal a does ganddo ddim amheuaeth beth fydd y ddedfryd oherwydd mae wedi penodi'r 'hangmon' yn barod!

> Mynnaf wneuthur arnynt gwest
> O adar onest ddigon,
> A'r dylluan dan ei nod
> A fynna' i fod yn hangmon.

Ac yntau wedi dweud pethau digon chwerw am y Saeson, does dim rhyfedd ei fod am aros yn ddienw. Dyma sut y mae'n cloi ei gerdd:

> O daw gofyn pwy a wnaeth
> Hyn o araeth creulon, -
> Dyn a fu gynt yn cadw oed
> Dan fforest Coed Glyn Cynon.

A chadw oed, fel arfer, fyddai cwrdd â chariad. Os oes gennych gopi o'r *Oxford Book of Welsh Verse*, gol. Thomas Parry, chwiliwch am y gerdd ar dudalen 206. Gwrandewch am yr odlau mewnol – maen nhw'n gwneud i'r gerdd symud yn ei blaen yn sionc, ac weithiau'n tanlinellu ambell i air sy'n collfarnu'r Saeson, fel 'ynghrog'!

Y tro nesaf, byddwn yn ymweld â Phontypridd, mewn cyfnod pan oedd diwydiant wedi hawlio'r rhan fwyaf o lesni'r cymoedd hyn.

*GMR*

# Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

**Llangrannog**
Cafodd ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 lawer o hwyl yn Llangrannog yn ddiweddar. Aeth criw o blant a staff i dreulio 3 diwrnod llawn o weithgareddau cyffrous yn y gwersyll, a diolch byth doedd y tywydd ddim yn rhy wael chwaith! Diolch yn fawr iawn i'r staff am roi eu hamser yn wirfoddol i sicrhau bod y plant yn derbyn profiadau bythgofiadwy.







**Cydymdeimlo**
Roedd y staff yn flin iawn i glywed am farwolaeth un o gyn-benaethiaid yr ysgol, John Pugh. Estynnwn bob cydymdeimlad i'w deulu yn ystod y cyfnod anodd hwn.

**Diwrnod Shwmae Su'mae**
Bu plant yr ysgol yn dathlu diwrnod Shwmae Su'mae yn ddiweddar er mwyn hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Dyma rai o'r plant yn lliwio posteri i ddathlu'r diwrnod.











**Ymweliad â Llancaiach Fawr**
Aeth disgyblion Blwyddyn 1 i ymweld â phlasdy Llancaiach Fawr i ddysgu am fywyd plant yn y gorffennol. Aethon nhw ar daith o amgylch y plasdy i ddysgu am fywyd yn ystod Oes y Stiwardiaid, cyn cymryd rhan mewn gweithdy i ddysgu am wahanol deganau a chymharu bywyd plant yn y gorffennol gyda bywyd plant heddiw.

**Jambori'r Urdd**
Aeth disgyblion blynyddoedd 3 – 6 i Ganolfan Hamdden Llantrisant i ganu a dawnsio gyda Martyn Geraint yn y Jambori cyntaf ers y pandemig. Roedd y plant wrth eu boddau yn canu rhai o'r hen ffefrynau yn ogystal ag ambell gân newydd.





Diwrnod Shwmae Su'mae

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau gwresog i Ffion ac Owain Llyr ar enedigaeth mab ar ddydd Iau, Hydref 19eg. Mae Tad-cu a Mam-gu, Geraint a Caroline Rees wrth eu boddau gyda Caio bach.

**Ocsiwn Neuadd y Pentref**
Bu'r Ocsiwn yn Neuadd y Pentref ar nos Wener, Hydref 13eg yn llwyddiant ysgubol. Mae'n debyg fod Geraint wedi gwneud gwaith arbennig yn ei swydd newydd fel arwerthwr!! Codwyd dros tair mil o bunnoedd i goffrau'r Neuadd. Mae gwaith atgyweirio'r adeilad wedi dechrau ers pythefnos neu fwy.

**Cylch Cadwgan**
Ymgasglodd cynulleidfa niferus yn Neuadd y Pentref ar nos Wener, Hydref 6ed i fwynhau cyfarfod cyntaf y tymor o Gylch Cadwgan. Y Prifardd Cyril Jones fu'n ein diddanu gydag hanesion o'i ardal enedigol yng Ngheredigion. Adeg Eisteddfod Tregaron llynedd cyhoeddodd Cyril gyfrol o'r enw "Man Gwyn y Smotyn Du", a dyna oedd teitl ei sgwrs yn yr Efail Isaf. Soniodd yn fras am feirdd ac ysgrifenwyr ardal y Smotyn Du, sef ardal unigryw yr Undodwyr yng Ngheredigion. Fodd bynnag prif wrthrych ei sgwrs oedd hanes Joseph Jenkins a adawodd Ceredigion gan ymfudo i Awstralia, gan dreulio chwarter canrif yno fel Swagman. Roedd wedi bod yn gyfforddus iawn ei fyd ar fferm Trecefel ger Tregaron, ond byw bywyd cwbl groes i hyn wnaeth e yn Awstralia. Yr hyn oedd yn hynod am y Swagman oedd iddo gofnodi'r helyntion mewn dyddiaduron manwl sydd wedi eu cadw'n ofalus gan ei deulu. Diolch Cyril am noson hynod o ddiddorol.

**Y TABERNACL**
**Bore Coffi MacMillan**
Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus yng Nghanolfan y Tabernacl fore Mawrth, Medi 21ain fel rhan o ymgyrch "Bore Coffi Mwya'r Byd". Codwyd £165 tuag at y gwaith gwych mae elusen MacMillan yn ei wneud i gefnogi dioddefwyr canser a'u teuluoedd. Diolch i'r rhai fu'n trefnu'r bore a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Elusen Canser Syr Gareth Edwards**
Enghraifft arall o gefnogaeth i ddioddefwyr Canser oedd thema ein Gwasanaeth fore Sul, Medi 23ain. Fe gyflwynodd Eirlys Edwards o Lantrisant amcan yr elusen a sefydlwyd yn ddiweddar yn enw ei thad yn nghyfraith, Gareth Edwards, i gynnig cefnogaeth i rai rhwng 15 – 25 oed sy'n dioddef o ganser. Dyma'r ystod oed sy'n ei chael hi'n anodd ymgodymu'n ariannol tra'n derbyn triniaeth. Codwyd £320 i gefnogi'r elusen mewn casgliad ar ddiwedd yr Oedfa. Diolch i Lyn West am lywyddu a threfnu'r Oedfa.

**Oedfa Diolchgarwch**
Cynhaliwyd Oedfa o ddiolch fore Sul, Hydref 15ed. Roedd yn hyfryd gweld blaen y capel yn llawn plant bach yn canu eu gorau glas gan ddiolch am eu rhieni, eu cartrefi, eu bwyd ac am bob dim y byddwn ni oedolion yn cymryd yn ganiataol. Eleri Mai, ein Swyddog Ieuenctid a Chymunedol fu'n llywyddu'r Oedfa ac mi ddaeth y Twmiaid Bach a'r Twmiaid hŷn yn eu tro i gyflwyno eu diolch. Trefnwyd lluniaeth yn Neuadd y Pentref yn dilyn y Gwasanaeth. Diolch i Caroline Rees am gydlynu'r wledd.

Y Sul canlynol, Hydref 22ain, cafodd plant yr Ysgol Sul barti a bore'n llawn hwyl yn Neuadd y Pentre. Digon o ganu, gemau a bwyd wrth gwrs.

**Drysau'r Ganolfan yn Ail-agor**
Ar ôl cyfnod o rai wythnosau digon diflas tra roedd Bwrdd Dŵr Cymru'n ceisio atgyweirio'r cyflenwad dŵr i'r Ganolfan mae'n dda cael cyhoeddi fod ein trafferthion ar ben, a drws y Ganolfan wedi ail-agor. Tra chafodd rhai digwyddiadau eu cyfeirio i Neuadd y Pentref bu'n rhaid dileu amryw o weithgareddau ee. Y boreau coffi, y Tawmiaid a phwyllgorau'r Eglwys, ac wrth gwrs y baned ar ôl Oedfa'r Sul. Croeso nôl i normalrwydd!

**Merched y Wawr**
Cynhelir Gwasanaeth Nadolig Merched y Wawr, Rhanbarth De Ddwyrain Cymru yn y Tabernacl, brynhawn Sul, Tachwedd 26ain am hanner awr wedi 2.

**Merched y Tabernacl**
Cynhelir cyfarfod nesaf Merched y Tabernacl yn y Coleg Cerdd a Drama, dydd Gwener, Tachwedd 3ydd am 1:15 y prynhawn. Bydd Siwan Rhys, y pianydd dawnus yn perfformio gwaith newydd gan chwech o gyfansoddwyr sy'n cynrychioli gwaith gan gyfansoddwyr anabl Prydain. Cawn gwrdd cyn y datganiad am baned am 12 o'r gloch yn y Coleg.

**"Tua'r Nadolig"**
Cynhelir cyngerdd gyda Delwyn Siôn a Chôr Caerdydd yng Nghapel y Tabernacl ddydd Sul, Rhagfyr 3ydd am 5 o'r gloch y prynhawn. Ymgyrch i godi arian at Eisteddfod Rhondda Cynon Taf yw'r gyngerdd. Dewch yn llu i gefnogi.

## O'r Senedd gyda Heledd Fychan

Mae cymunedau yng Nghanol De Cymru yn parhau i deimlo pwysau di-baid yr argyfwng costau byw. Mae costau cynyddol tai, cyfleustodau a hanfodion dyddiol yn creu baich sylweddol ar deuluoedd ac unigolion yn ein cymunedau.

Er gwaethaf hyn mae nifer o sefydliadau wedi camu mewn i gynnig cefnogaeth gyda mynediad at fwyd, dillad, cyngor cyffredinol a llawer mwy.

Yn ddiweddar, cefais y fraint o ddod â rhai o'r sefydliadau hyn ynghyd ar gyfer fy mhumed digwyddiad Rhwydwaith Costau Byw. Diben y rhwydwaith yw rhoi cyfle i sefydliadau ddod ynghyd i rannu eu profiadau, cyfnewid syniadau, trafod arferion gorau, a dysgu mwy am y gefnogaeth amhrisiadwy y mae pob sefydliad yn ei gynnig.

Yn ystod y trafodaethau mae'n amlwg bod y galw am gefnogaeth wedi cynyddu wrth i ni agosáu at y gaeaf. Bu'r sefydliadau yn adrodd nôl i mi fod nifer cynyddol o unigolion yn chwilio am gymorth gyda chostau bwyd ac ynni yn benodol ond codwyd pryderon hefyd ynglŷn â diffyg mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, tai fforddiadwy, gofal plant a hyfforddiant sy'n gwaethygu sefyllfa pobl fwyaf bregus.

Mae'r sefydliadau hyn yn gweithio'n ddiflino i gefnogi ein cymunedau, ac mae eu hymdrechion yn ysbrydoledig. Rwyf bob amser yn gadael y digwyddiadau hyn wedi fy ysbrydoli gymaint gan y gwaith anhygoel sy'n cael ei wneud gan gynifer o sefydliadau ac unigolion yn ein cymunedau, ond hefyd yn flin oherwydd y diffyg gweithredu gwleidyddol i wella bywydau pobl. Gall Llywodraethau Cymru a'r DU wneud mwy i sicrhau nad oes neb yn byw mewn tlodi a byddaf yn parhau i ymladd dros gyfiawnder i bawb.

Bydd y digwyddiad nesaf ym mis Chwefror felly os oes gennych ddiddordeb mewn darganfod mwy, cysylltwch â mi. Os oes rhywbeth yr hoffech drafod gyda mi, neu os ydych angen cefnogaeth, cofiwch fod croeso ichi ddod i gysylltiad drwy e-bostio Heledd.Fychan@Senedd.Cymru ffonio'r swyddfa - 01443 853214.

**Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Tachwedd**
Tachwedd 5ed Oedfa Gymun dan ofal Y Parchedig Eirian Rees a Geraint Rees.
Tachwedd 12ed Y Parchedig Aled Edwards
Tachwedd 19eg Sul Diogelu
Tachwedd 26ain Y Parchedig Gethin Rhys.

# O DAN YR WYNEB

**Martin Huws sy'n holi Casi Wyn am *Bro Prydferthwch*, cyfrol o gerddi gafodd eu datblygu â phlant ar hyd a lled Cymru pan oedd hi'n Fardd Plant.**

**Beth yw eich gwaith?**
Mi fuis i'n gweithio fel Bardd Plant Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn ymweld â phlant a phobl ifanc ar hyd a lled y wlad i gyd-ysgrifennu cerddi a chyfansoddi caneuon.




**Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?**
Dwi'n gantores.

**O ble rydych chi'n dod?**
O Fangor yng Ngwynedd.

**Ble rydych chi'n byw?**
Ychydig o bob man!

**Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?**
Do, yn fawr iawn. Ges i amser arbennig gyda llwyth o gefnogaeth a chariad yn fy amgylchynu drwy'r amser. Dwi wedi profi lot o werth mewn addysg iaith Gymraeg.

**Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?**
Gormod i'w henwi. Mi gafodd yr Urdd ddylanwad mawr arna i, o'r Eisteddfod i'r uwchadran. Dwi'n lwcus o'r profiadau rheini. Fy nheulu hefyd a 'nghefndir, Nain a Taid. Roedd fy rhieni yn credu bod adnabod fy ngwreiddiau'n bwysig.

**O ble daeth y syniad cyn sgrifennu'r gyfrol?**
Mi o'n i'n teimlo'r angen i grynhoi fy nwy flynedd fel Bardd Plant mewn modd sy'n hawdd ac yn hygyrch i blant, athrawon ac ysgolion fedru mwynhau. Mae'r gyfrol o gerddi plant, gobeithio, yn sicrhau bod bywyd pellach i 'ngweledigaeth a 'nhymor i fel Bardd Plant.

**Beth yw arwyddocâd y teitl?**
Mi gyfansoddais i gân gyda disgyblion Ysgol Alun, Y Wyddgrug, o'r enw 'Bro Prydferthwch' wrth inni daflu golau ar y pethau da sy'n lleol inni. Mae'r gair 'bro' yn teimlo'n gynhenid i Gymru ac yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf dwi wedi rhannu cymaint o amrywiaeth yn ein cymunedau yng Nghymru. Mae'r cymunedau wedi cynnig ysbrydoliaeth a phrydferthwch imi ar ffurfiau gwahanol. Am wn i felly mae'r teitl yn anrhydeddu fy mhrofiadau a'r holl bobl arbennig wnes i gyfarfod â nhw.

**Beth sy'n gwneud cerdd dda?**
Does dim modd esbonio be sy'n gwneud cerdd dda. Mae'ch greddf chi'n gwybod ac yn adnabod cerdd dda.

**Sut mae cerdd yn dechrau?**
Does dim rheol!

**Sut mae cerdd yn datblygu?**
Ar ei liwt ei hun a finnau'n ei dilyn.

**Beth sy'n well 'da chi, y wers rydd neu'r gynghanedd?**
Rhyddid!


**Sut mae dal dychymyg plant?**
Drwy wrando ac annog.

**Beth oedd proses cynllunio'r casgliad? Beth oedd y mwynhad mwya a'r her fwya?**
Dwi wedi gweithio gydag Elen (Gwasg Carreg Gwalch) a'r artist amryddawn, Llyr Evans, ar ddyluniad y llyfr. Y nod yw cyflwyno llyfryn gweledol trawiadol fydd at ddant plant, rhywbeth y gallan nhw ddychwelyd ato'n gyson. Mae'r llyfr yn cysylltu gyda chasgliad o ganeuon wnes i gyd-gyfansoddi gydag ysgolion yn ystod y ddwy flynedd. Felly cofiwch sganio'r cod QR!

**Oes gennych chi rwtîn sgrifennu?**
Dwi'n ysgrifennu'n ddyddiol fwy neu lai.

**Beth yw eich barn am stad barddoniaeth Gymraeg?**
Cwestiwn mawr. Dwi'n hoffi credu bod barddoniaeth Gymraeg yn bodoli tu hwnt i dudalennau llyfr neu grwpiau dethol. Mae barddoniaeth yn byw ar goedd, mewn sgwrs, yn y ffordd mae pobl ifanc yn rhannu negeseuon tecst ac yn y modd mae'r genhedlaeth hŷn yn gyrru cardiau post.

Mae 'na amryw fersiynau o'r iaith Gymraeg yn cael eu cyfnewid o ddydd i ddydd ac mae hynny'n beth iach a diddorol. Does dim amheuaeth bod Covid wedi cael effaith anferth ar ddefnydd y Gymraeg mewn ysgolion. Mae 'na gymaint o eirfa wedi ei cholli yn yr ysgolion am nad ydi pob disgybl yn siarad Cymraeg yn y cartre'. Mae effaith y byd o'n cwmpas felly, wrth reswm, yn




newid ac yn ail-siapio iaith, ac felly'r farddoniaeth yn yr iaith honno.

**Pwy yw eich hoff fardd? Pam?**
Mae'r ateb yn newid o wythnos i wythnos. Yr emynwyr Cymraeg, Maya Angelou a Mustafa The Poet ar hyn o bryd. Mae 'na gysur ysbrydol i'w gael o farddoniaeth, blanced o gariad ac ysbrydoliaeth ar ffurf geiriau. Mewn emynau mae 'na gryfder a gwaelod. Mae Maya'n siarad dros gyfiawnder ac am rym benywaidd-dra tra bod Mustafa'n canu ei gerddoriaeth, yn canu i Dduw ac yn siarad dros y rhai sy'n methu mynegi eu hunain ym mha bynnag ffordd.

**Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i fardd ifanc?**
I beidio bod ofn tawelwch.

**Beth oedd y cyngor gorau gawsoch chi?**
'Dos rhagot.' Taid Carrog.

**Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd**
Gyda glasied o siampên yng nghwmni fy ffrind a'r ffotograffydd, Carys Huws.

**Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?**
Sgwrsio gyda fy nheulu a 'nghariad.

**Dolen Gwales: https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781845279264&tsid=3#top**

*Bro Prydferthwch,* Gwasg Carreg Gwalch, £6.50
https://soundcloud.com/user-679623049/bro-prydferthwch



# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*



**Arddangosfa Gelf**
Cynhaliwyd arddangosfa gelf lwyddiannus iawn yn Neuadd y Pentref yn ddiweddar. Dechreuodd y gymdeithas arlunio yn y pentref dros 30 mlynedd yn ôl gan gwrdd yn y lle cyntaf yn nhy Anne Peebles un o'r sylfaenwyr. Wrth i'r niferoedd gynyddu symudwyd i festri Capel Horeb ac yna i Neuadd y Pentref lle mae 25 o arlunwyr brwd yn cwrdd yn wythnosol. Mae 6 o'r aelodau gwreiddiol yn dal i fynychu'r dosbarthiadau ac mae rhestr aros o 18. Mae'r gwersi yn aml yng ngofal artisitiaid lleol proffesiynol a'r cynnyrch yn cael ei arddangos a'i werthu mewn arddangosfeydd. Arddangosfa fach mewn ymateb i'r galw oedd hon ac o'r 100 o luniau oedd yn cael eu harddangos llwyddwyd i werthu 40 ohonynt. Bydd yr arddangosfa flynyddol fawr nesaf ddydd Sul Mai19eg yn Neuadd y Pentref unwaith eto a bydd mwy o luniau ar werth. Mae cryn dipyn o dalent creadigol yn y pentref!

**Penblwydd Hapus**
Llongyfarchiadau i Gwyneth Lewis sydd wedi dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar. Mae'n siwr iddi fwynhau'r dathliad arbennig gyda'r teulu draw yn Sir Benfro yn Aberllydan.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Ryan a Meg Elias, Heol yr Eglwys ar enedigaeth eu plentyn cyntaf. Ganwyd Hattie Grace ddeuddydd cyn i'w thad adael am Gwpan Rygbi'r Byd! Pob dymuniad da iddynt fel teulu bach.

**Penblwydd Hapus**
Danfonwn ein dymuniadau gorau a'n llongyfarchiadau mawr i Sara Pickard wrth iddi ddathlu ei phenblwydd yn bedwar deg.

**Cerddorfa Ieuenctid Genedlaethol**
Llongyfarchiadau i Erin Jardine sydd yn un o'r 158 o gerddorion yn eu harddegau o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a fydd yn ffurfio cerddorfa flaengar ar gyfer ieuenctid. Y gobaith yw y byddant yn ysbrydoliaeth i'w cyfoedion ac yn ddylanwad ar ddyfodol cerddoriaeth gerddorfaol drwy eu perfformiadau.

**Clwb y Dwrlyn**
Cynhaliwyd ail gyfarfod o dymor 2023/24 Clwb y Dwrlyn ar Hydref 19eg yng Nghlwb Rygbi Pentyrch.

Bryd hynny gwahoddwyd Tim Hartley i'n plith, a chafwyd orig hynod o ddiddorol yn ei gwmni, yn olrhain ei hanes, o'i blentyndod ar aelwyd ddi-gymraeg, ei ddyddiau ysgol gynradd ac yn Ysgol Rhydfelen, a'i swyddi gwahanol ym maes radio a theledu, gwleidydda a chwaraeon.



Cyflwynwyd y cyfan ganddo yn hynod o gelfydd a phwrpasol, gan ddwyn i gof gymeriadau a throeon trwstan mewn amryw o wledydd dros bedwar ban byd. Amcangyfrifai ei fod bellach wedi ymweld â dros 80 o wahanol wledydd, nifer helaeth ohonynt yn dilyn tîm pêl-droed Cymru ar eu hynt mewn cystadlaethau Ewropeaidd a chwpan y byd.

Ac yn sgil dilyn pêl-droed, a'r dyhead i ddangos bod modd bod yn fwy na dim ond cefnogwyr 90 munud, eglurodd am yr hyn a sefydlwyd ganddo a nifer eraill o aelodau'r Wal Goch, sef elusen a fyddai yn sicrhau bod cartrefi plant, yn y gwledydd llai breintiedig, yn derbyn rhoddion megis dillad, offer chwaraeon, a hyd yn oed cerbydau (os byddent yn cyrraedd y wlad dan sylw yn un darn), er lliniaru peth ar eu bywydau truenus a thlawd.

Cafwyd blas ar y cyflwyno a'r cynnwys, a chyflwynwyd rhodd i'r elusen yn ddiolch iddo, er hwyluso'r daith nesaf wrth ddilyn tîm pel-droed dynion Cymru i Armenia ymhen y mis.

RhGJ.

**Penblwydd Brysur**
Ar drothwy ei phenblwydd yn ddeugain oed cafodd Sara Pickard benwythnos diddorol iawn.

Ar Sadwrn 21ain o Hydref cafodd wahoddiad i fynychu achlysur arbennig: 'Lle I Ni - Diwrnod Menywod yn y Senedd'

Fe draddododd Sara y Prif Araith ar lawr y Senedd yn sôn am ei phrofiad o weithio yn y byd gwleidyddol fel Cynghorydd Cymuned ac hefyd ei bod wedi siarad yn y Cenhedloedd Unedig.

Pwrpas y diwrnod oedd ymchwilio i rôl menywod mewn gwleidyddiaeth a'r hyn galler ei wneud i annog mwy o fenywod o wahanol grwpiau ethnic neu ag anabledd i fentro i'r byd gwleidyddol. Cafwyd nifer o weithdai diddorol yn y prynhawn gyda chynrychiolaeth o wahanol fudiadau yng Nghymru.

Ar ôl y diwrnod o waith, ar Sul ei phenblwydd cafodd Sara gyfle i ymlacio a mwynhau noson o Karaoke gyda'i ffrindiau! (Shan Pickard)


***'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf''***

**Ewyllysiau Cymraeg gan Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)**

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar rcerijones@gmail.com

( Aelod o Gymdeithas Ysgrifennwyr Ewyllysiau)

## Clwb Rygbi Pentyrch

Yn ddiweddar roedd Clwb Rygbi Pentyrch yn falch iawn o dderbyn tarian fach i nodi ei bod wedi cael ei henwi'n Glwb Mwya Croesawgar Adran y De Ddwyrain gan Gymdeithas y Dyfarnwyr. Mae'n glod i lawer o'r aelode - ond yn benna i'n rheolwr Trish a'i thîm sy bob amser yn barod â gwen o groeso, ac yn fwy fyth i Duncan Dawson - ein Halbanwr balch - un o'r Is-Lywyddion sy bob Sadwrn ar ôl awr yn casglu'r arian mynediad i wylio'r gêm yn cymryd y cyfrifoldeb wedi'r chwib ola o edrych ar ôl pob dyfarnwr i wneud yn siŵr eu bod yn teimlo'n gartrefol yn y cwmni ac yn cael tamaid i'w fwyta a llymaid i'w yfed cyn gadael.



Ac roedd Duncan wrthi eto ar Sul ola'r mis - yn ei wisg genedlaethol - yn croesawu'r golffwyr oedd yn cyrraedd ar gyfer diwrnod golff blynyddol y Llywydd a'r Is Lywyddion - cystadleuaeth rhif 35 ers y gynta ym 1988- diwrnod hynod o bwysig i godi arian i'r clwb. Unwaith eto, cafwyd ymdrech fawr gan holl aelodau grŵp yr Is Lywyddion, ond mae'r diolch penna'n mynd i Colin Williams a weithiodd mor galed mewn amgylchiade anodd eleni i ddenu'r timoedd a sicrhau llwyddiant y diwrnod gyda'r haul yn gwenu a'r cystadlu'n frwd. Ac roedd enillwyr newydd y tro hwn - tim "Concept Fire and Electric" yn cynnwys Ceri Sweeney a Jamie Ringer - dau gyn chwaraewr rhyngwladol dros Gymru



Cofiwch am ddau achlysur poblogaidd iawn ar Gae'r Dwrlyn - Tân Gwyllt nos Sadwrn nesa Tach 4ydd - noson wych i'r teulu cyfan, ac yna'r noson "Pei a Potsh" flynyddol yn y clwb nos Wener Tachwedd 24ain. Cyn gapten Cymru Ieuan Evans yw'r gwestai - mae'r tocynne'n brin iawn - dim rhyfedd - dim ond £20 yw'r gost - bargen. Y cynta i'r felin fydd hi felly os am ddod. H.Ll.D

## Ysgol Pont-Siôn-Norton



**Noson Rhannu Gwybodaeth**
Diolch i'r holl rieni a ddaeth i'r noson rhannu gwybodaeth a chwrdd a'r athro. Bydd Nosweithiau Agored ym mis Tachwedd.

**Mabolgampau**
Ym mis Medi cafwyd mabolgampau ar y cyd gydag Ysgol Heol-y-Celyn. Roedd yn gyfle i bawb gael hwyl a chymysgu gyda'n gilydd yn barod i ni uno fel Ysgol Awel Taf. Diolch i bawb am drefnu!



**Rygbi'r Urdd**
Llongyfarchiadau i fechgyn blwyddyn 5 a 6 ar wneud yn wych yng nghystadleuaeth Rygbi'r Urdd ym Mhenybont yn ddiweddar. Bu cystadlu brwd a llawer o lwyddiant. Daliwch ati gyda'r gwaith caled! Diolch Mrs Cotter a Miss James am eu hyfforddi.



**Ymweliad**
Aeth Blwyddyn 3 lawr i adeilad newydd gwych Ysgol Awel Taf i ymuno gyda Blwyddyn 3 Ysgol Heol-y-Celyn ar gyfer chwarae a chymdeithasu. Bu cyfle i gael taith o amgylch yr adeilad arbennig a chael cyflwyniad gan gwmni adeiladu ISG am ecoleg a'r adeilad. Bydd gweddill y disgyblion a'r rhieni yn cael cyfle i ymweld cyn hir. Mae pawb yn gyffrous iawn!

**Diwrnod Shwmae Su'mae**
Ar y 15fed o Hydref daeth pawb i'r ysgol yn gwisgo coch i ddathlu diwrnod Shwmae Su'mae! Cafwyd pob math o weithgareddau amrywiol a hwyl yn cynnwys disgo gwych!



**Amgueddfa Pontypridd**
Diolch i'r amgueddfa am y croeso wrth i'n disgyblion ymweld yn ddiweddar i ddysgu mwy am hanes Pontypridd. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn.

**Disgo**
Diolch i Ffrindiau PSN am drefnu disgos Calan Gaeaf i'n disgyblion. Roedd pawb yn flinedig iawn ar ol yr holl ddawnsio a chael hwyl!

**Y Cynhaeaf**
Diolch i Mr Coleman am ddod i'r ysgol i gynnal ein gwasanaeth Cynhaeaf blynyddol. Diolch hefyd i bawb am eu cyfraniadau tuag at y banc bwyd lleol.

**Jambori yr Urdd**
Cafodd blwyddyn 3 i 6 lawer o hwyl yn y Jambori cyn hanner tymor gydag arwr pawb- Martyn Geraint!! Roedd ymddygiad ein disgyblion yn wych ac roedd pawb wrth eu boddau yn cael hwyl a sbri gydag ysgolion lleol.



# Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

**Hysbysebu Digwyddiadau a Grŵpiau Cymraeg yn y Sir**

Ydych chi'n trefnu digwyddiad neu weithgaredd Cymraeg yn y sir? Boed yn ddigwyddiad codi arian at yr Eisteddfod neu'n grŵp sy'n cwrdd yn wythnosol, mae Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yma i helpu chi hyrwyddo eich digwyddiadau Cymraeg. Gallwn ni hysbysebu eich digwyddiadau ar dudalennau Beth sy' 'mlaen? ein gwefan a thrwy ein rhestr e-bost a chyfryngau cymdeithasol.

Rydym yn rhannu rhestr o ddigwyddiadau ar ddechrau pob mis felly anfonwch unrhyw ddigwyddiadau erbyn y 25ain o bob mis i gael eu hysbysebu y mis canlynol.

Hysbysebwch eich digwyddiad trwy gwblhau'r ffurflen hysbysebu digwyddiad ar ein gwefan neu e-bostiwch marged@menteriaith.cymru

Gallwch chi danysgrifio i restr e-bost Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yma <https://menteriaith.cymru/tanysgrifio-subscribe/> i dderbyn ein cylchlythyr digwyddiadau yn fisol.

**Cynllun Newydd Hapus i Siarad**

Mae'n bleser gyda ni gyhoeddi y byddwn ni'n gweithio ar gynllun newydd ar y cyd rhwng Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a Mentrau Iaith Cymru. Mae'r cynllun yn dechrau mewn tair ardal – Rhondda Cynon Taf, Wrecsam a Cheredigion i ddechrau gan obeithio tyfu i fod yn brosiect cenedlaethol yn y pendraw.

Bwriad y prosiect yw rhoi'r cyfle i ddysgwyr a siaradwyr newydd ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu cymunedau lleol. Bydd y busnesau a siopau lleol sy'n rhan o'r cynllun ddim yn unig yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ond yn ymrwymo i gael sgwrs gyda phobl yn Gymraeg hefyd. Trwy hyrwyddo'r Gymraeg fel hyn i'n dysgwyr a'n siaradwyr newydd, rydym yn gobeithio ein bod ni'n hyrwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol i bawb a chodi proffil.

Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar fusnesau yn Nhreorci, Aberdâr, Pontypridd a Phont-y-clun i ddechrau ac yn cael ei lansio'n swyddogol ym mis Ionawr 2024. Os ydych chi'n rhedeg busnes neu siop yn un o'r ardaloedd yma a bod awydd gyda chi fod yn rhan o'r cynllun, cysylltwch â ni trwy e-bost gweithgareddau@menteriaith.cymru heddiw!

**Gig Gentle Good**

Roedd y Fenter yn falch iawn i fod yn rhan o daith PYST a Mentrau Iaith unwaith eto ym mis Hydref. The Gentle Good oedd ar daith y tro hwn yn perfformio ar hyd y wlad gyda chefnogaeth o fandiau lleol. Roedd hi'n noson fendigedig yng Nghlwb y Bont. Cawsom ni set wych gan y band lleol Y Dail cyn cael ein swyno gan Gareth Bonello. Diolch i bawb ddaeth i gefnogi'r noson. Edrychwn ymlaen at daith rhif 3!



Shwmae Clwb Carco

**Diwrnod ShwMae - dathlu'r 10**

Roedd hi'n flwyddyn fawr i Diwrnod Shwmae Su'mae eleni. Roedd hi'n 10 mlynedd ers cychwyn y gwaith o hyrwyddo'r diwrnod yn ein cymunedau. Mae'r diwrnod wedi mynd o nerth i nerth dros y blynyddoedd a braf yw gweld pawb yn dathlu yn yr ysgolion ac yn y gymuned. Eleni, aeth y Fenter i gynnal gweithdy animeiddio yn Ysgol Gynradd Llwynypia, gweithdy canu Cymraeg yn Ysgol Cymunedol Tonyrefail a dathlu'r diwrnod yn ein Clybiau Carco. Aethon ni o gwmpas busnesau ym Mhontypridd a Threorci gyda Ellis Lloyd Jones i sgwrsio gyda phobl am y Gymraeg ac annog pawb i ddechrau pob sgwrs yn Gymraeg gyda Shwmae! Edrychwn ymlaen at ddathlu eto blwyddyn nesaf.

**Swyddi Clybiau Carco**

Hoffech chi ymuno â thîm sy'n darparu gofal ar ôl ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg? Mae Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yn edrych am staff ar gyfer ein Clybiau Carco. Rydym yn hysbysebu'r cyfleoedd gwaith isod: Arweinydd Clwb Carco Garth Olwg. Arweinydd Clwb Carco Llanhari. Dirprwy Clwb Carco Garth Olwg. Gweithwyr Chwarae ar gyfer Clybiau Carco Garth Olwg, Llanhari, Llwyncelyn



Shwmae Llwynypia





Shwmae Tonyrefail

Os oes diddordeb gyda chi ddysgu mwy am y swyddi, cysylltwch â lisa@menteriaith.cymru

**Dyddiadau i'r Dyddiadur!**

**18.11.23 - Eisteddfod y Rhondda**

****DYDDIAD NEWYDD** 01.12.23 – Noson Elvis i godi arian at yr Eisteddfod – Yr Hen Lyfrgell Porth**

Noson o adloniant a chwis gydag Elvis! Am ragor o wybodaeth neu i brynu tocyn e-bostiwch gweithgareddau@menteriaith.cymru

**14.12.23 – Hwyl yr Ŵyl – Canu Carolau ac Alawon Nadolig yn yr Hen Lyfrgell Porth – 11:00-13:00**

**15.12.23 - Cyngerdd CÔR i godi arian at yr Eisteddfod**

Am y newyddion diweddaraf - **Dilynwch ni!**

Gallwch chi danysgrifio i'n rhestr e-bost yma: www.menteriaith.cymru/tanysgrifio-subscribe

**Facebook:** @MenterIaithRhCT
**Twitter:** @MenterIaithRhCT
**Instagram:** @menteriaithrhct

**Gwefan:** www.menteriaith.cymru **E-bost:** post@menteriaith.cymru **Ffôn:** 01443 407570



# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

**Graddio gyda 2i mewn Anthropoleg!**
Llongyfarchiadau mawr, Elina ar raddio yr haf yma! Enillodd Elina Thomas-Jones radd B.A. gydag anrhydedd mewn Anthropoleg o Brifysgol Aberplym (Plymouth!). Yn ychwanegol derbyniodd wobr am y cyfraniad mwyaf clodwiw i faes astudiaeth Anthropoleg! Da iawn ti, Elina! A phob dymuniad da i ti wrth i ti gychwyn ar ran nesa'r daith - sef M.A. rhan amser ym mhrifysgol Caerwysg ym maes AnthroSwoleg, tra'n gweithio rhan amser yn Sŵ Paignton, Dyfnaint! Mwynha dy brofiadau newydd!



**Babi newydd!**
Llongyfarchiadau mawr - Catrin a James draw yn Llanddeiniol, Cas-gwent ar enedigaeth Luned Eiddwen! Ganed Luned ar y 4ydd o Hydref ac mae'n chwaer fach i Gruffydd Harri! Ac wrth gwrs yn wyres i Helen a Gordon Middleton yma'n y Creigiau. Pob bendith deulu bach a diolch am rannu'r llun gyda ni!



**Dathlu Priodas Arian!**
Llongyfarchiadau mawr i Ceri a Geraint Roberts, Y Teras, Creigiau ar ddathlu eu penblwydd priodas arian. Gobeithio i chi fwynhau y dathlu allan yn Efrog Newydd. Priodwyd y ddau ar y 10fed o Hydref, 1998 yng Nghapel Penstryd, Trawsfynydd! Ymlaen at y garreg filltir nesa eich dau! Beth am rannu llun neu ddau gyda ni?

**Clwb Gwawr Crotesi Creigiau**
Cafwyd prynhawn hyfryd ar ddydd Sul 1af Hydref gyda Chlwb Petanque Creigiau. Diolch i Bethan Jones am drefnu ac am y croeso cynnes.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i deulu'r diweddar Aled Thomas, Pontypridd. Anfonwn gwtsh a chariad at Gwerfyl, Geraint a'r teulu a Menna yn eu colled enbyd. Yn meddwl amdanoch.

**Stori neis!**



Llongyfarchiadau mawr, Steffan Thomas! Drws nesa gynt! Gadwest ti'r newyddion yma'n dawel iawn! Deryn bach ddwedodd wrtha i am edrych ar dudalen F/B Steff - ac wele - y newyddion bod Steff wedi ennill y teitl 'Gofalwr y Flwyddyn' o fewn y cwmni cenedlaethol 'Right at Home'. Bellach mae Steff yn gweithio i gwmni Right at Home: Caerdydd a Chasnewydd. Cwmni sy'n cynnig gofal yn y cartref yn y de-ddwyrain. Ym mis Medi, mewn cinio ysblennydd yng ngwesty'r St. George's Park, Bourton on Trent ar y 14eg o Fedi cafodd Steff glywed ei fod wedi ennill teitl 'Gofalwr y Flwyddyn' o fewn ei gwmni! Anrhydedd o'r mwyaf. Hollol haeddiannol! Mae Steff yn gariad ac mi fyddai ei ofal at eraill yn ail i ddim, 'dw i'n siwr. Bydd yn mynd ymlaen i gynrychioli Cymru yn y rownd nesa. Pob lwc i ti! A dal ati i ofalu'n dyner! Os am fwy o'r hanes cymrwch gip ar dudalen F/B Steffan Thomas!



Merched y Wawr yn gwirioni ar gampau Mike Ebbsworth

## Merched y Wawr Cyflwyniad i Pilates gan y digymar Mike Ebbsworth

Wel - am sesiwn i ysbrydoli! Diolch i Eleri am y syniad! Diolch am drefnu! Am gyflwyno! Am lywio! Ac am gloi! Ponty boy yw Mike yn ôl ei gyfaddefiad ei hun - hogyn balch o Bonty ar hynny! Cyn-ddisgybl ysgolion Pont-sion-norton a Rhydfelen. Graddiodd mewn Gwyddoniaeth wedi mentro i Brifysgol Bangor! Hoffi'r straeon! Bu'n athro uchel ei barch a hapus yn ysgol Gyfun Llanhari - yna aeth i ofalu am Wyddoniaeth yn CBAC. Mae Mike yn amlwg yn hoffi sialensau!



Ychydig cyn y clo - oherwydd rhesymau teuluol, dirdynnol yn wir, trodd at astudio a dysgu Pilates. Astudiodd y maes a graddio mewn Pilates cyn y cyfnod clo. Bellach mae'n ymarferydd Pilates prysur a llwyddiannus iawn. Gŵr o'r enw Joseph Pilates o Dusseldorf yn yr Almaen roddodd ei enw i'r grefft. Bu Joseph farw yn y flwyddyn 1967 yn 85 oed.

Cyflwynodd Mike ni i brif egwyddorion Pilates - saith ohonynt - 1. anadlu 2. canolbwyntio 3. canoli 4. rheoli 5. trachywiredd 6. cydbwysedd a 7. llif. A dyma'r saith yn dechrau gwneud synnwyr pan ddechreuodd Mike ar sesiwn ysgafn o ymarferion. Rhannwyd y peli tennis! Hyfryd o ymarfer! Cawsom lawer iawn o dips - tips ar gyfer ystwytho'r cefn, y pengliniau, yr ysgwyddau, y garddyrnau. Gwerthwyd yr egwyddor yn sicr! Mae amserlen Mike yn llawn! Mae'n gweithio allan o'i Stiwdio ym Mhontypridd; yn cynnal dosbarthiadau - byw a thros zoom; yn gweithio un i un. Mae Pilates yn amlwg yn gweithio i Mike - hyd yma mae wedi cwblhau Her y Tri Chopa seithgwaith gan godi symiau sylweddol i Tŷ Hafan gyda'i gyfaill Mr Colin Parri. Llongyfarchiadau mawr, bois! A diolch, Mike am gyflwyniad gwych i Pilates! Os carech gysylltu â Mike am gyngor, am gymorth gellwch anfon gair ato ar ei e-bost mike.ebbsworth@gmail.com

# Colofn Blasus a Iachus

## Eluned Davies-Scott

### CYFFRO YN Y CRICED

Mae’n syndod o ble daw syniadau ar gyfer y golofn hon. Roeddwn yn digwydd bod yn gwrando ar gyfres cwpan y byd criced ar y radio yn ddiweddar ac roedd y gêm yn cael ei chwarae yn India. Cyfeiriodd y sylwebydd fod y gwylwyr Indiaidd yn arbennig o fywiog a lliwgar. Awgrymodd fod hyn yn gysylltiedig â dathliadau Diwali sy’n digwydd ym mis Tachwedd. Pwnc delfrydol ar gyfer erthygl y mis hwn!

Diwali neu Deepawali yw’r ŵyl fwyaf pwysig o’r niferoedd sy’n cael eu dathlu gan Hindŵiaid, Bwdhyddion, Jainiaid a Sikhiaid. Mae'r ŵyl, a elwir yn Ŵyl y Goleuadau, yn cael ei henw o'r rhes (avali) o lampau clai (deepa) sy’n cael eu goleuo y tu allan i gartrefi i symboleiddio'r golau mewnol sy'n amddiffyn rhag tywyllwch ysbrydol. Yn disgyn ar leuad newydd y mis Kartik, mae'r ŵyl yn para am bum niwrnod - o Dhanteras i Bhai Dooj. Eleni mae’r ŵyl dechrau ar Dachwedd 12fed.



Mae gan bob diwrnod arwyddocâd penodol:

Diwrnod 1 Dhanteras. Mae’r diwrnod hwn yn dathlu pen-blwydd Lakshmi, duwies cyfoeth. Dyma hefyd y diwrnod pan fydd y rhan fwyaf o deuluoedd yn glanhau eu cartrefi ac yn creu patrymau Rangoli lliwgar.

Diwrnod 2 Naraka Chaturdasi. Ar y diwrnod hwn, mae pobl yn canolbwyntio ar fuddugoliaeth dda dros ddrygioni. Mae menywod yn addurno eu dwylo gyda henna a pharatoi bwydydd melys ar gyfer y wledd gyda'r nos.

Diwrnod 3 Lakshmi Puja. Dyma ble mae gŵyl Diwali yn cael ei henw ‘gŵyl y goleuadau’. Mae addolwyr yn goleuo diyas, lampau olew, ac yn mwynhau arddangosfeydd tân gwyllt. Yn nodweddiadol, mae drysau a ffenestri'n cael eu gadael ar agor fel y gall Lakshmi fynd i mewn i gartrefi pobl. Fel y prif ddigwyddiad, mae'r bwydydd a weinir yn foethus ac yn cynnwys pethau fel cebabs, samosas, bhajis, aloo tikki (patties tatws wedi'u coginio ar radell), aloo Chat a phwdin melys fel semiya payasam.

Diwrnod 4 Bali Pratipada. Dyma pryd mae dechrau'r flwyddyn newydd yn cael ei ddathlu.

Diwrnod 5 Bhai Dooj. Mae bwyd ac anrhegion yn cael eu rhannu ar y diwrnod i ganolbwyntio’r cariad a'r gefnogaeth sydd rhwng brodyr a chwiorydd.

Mae'r ŵyl wedi dod yn fwyfwy poblogaidd mewn llawer o wledydd gyda’r bwydydd a weinir yn adlewyrchu traddodiadau lleol. Lle bynnag y caiff ei ddathlu, bwyd â theulu sydd yn ganolog iddi.

Felly beth sy'n cael ei fwyta yn ystod yr ŵyl bum niwrnod? Rhoddodd Sejal Sukhadwala a Roopa Gulati, awduron bwyd o Lundain, gipolwg ar y traddodiadau mewn erthyglau diweddar, dyma rai o’r sylwadau yn eu herthyglau.



Fel gyda phob dathliad mae digonedd o fwydydd melys. Yn draddodiadol, tua mis cyn i'r ŵyl ddechrau mae’r gwragedd a’r merched yn dod at ei gilydd i baratoi byrbrydau. Mae byrbrydau melys a elwir yn "mithai" yn boblogaidd sydd wedi'u gwneud o ffacbys, reis, corbys a sawl math arall o flawd. Defnyddir cyfuniadau o sbeisys, hadau sesame, dail fenugreek ffres neu gnau coco i’w blasu ac mae’r toes yn cael ei bwnio i siapiau amrywiol yna eu ffrio mewn olew. Enwau rhai o’r byrbrydiau melys yw'r "shakkarpara" siâp diemwnt, wedi'i wneud o does o siwgr, ghee, blawd maida, a semolina; "sev", nwdls wedi'i wneud o flawd gram; "chirote", disgiau melys o flawd, siwgr, blawd reis, a ghee. Gweinir amrywiaeth o "puris" hefyd, bara melys a sawrus wedi'u ffrio.



Arbenigedd safori fyddwch yn gyfarwydd ag ef yw cymysgedd Bombay. Mae yna amrywiadau di-rif, pob un ag enw gwahanol. Gall cymysgedd nodweddiadol Bombay gynnwys nwdls blawd gwygbys wedi'u ffrio (sev), gwygbys, pys sych, reis, winwnsyn wedi'i ffrio, corbys wedi'u ffrio a chnau. Mae'r cymysgedd wedi'i sesno â sbeis sy’n aml yn cynnwys cwmin a coriander mâl, tyrmerig, powdr tsili a halen.



Mae’r byrbrydiau yn cael eu bwyta trwy gydol y dydd ar eu pen eu hunain a gyda masala chai (diod a wneir trwy fragu te du gyda sbeisys persawrus, siwgr a llaeth ) a’u gweini rhan o bryd o fwyd ochr yn ochr ag eitemau sawrus. Mae'n arferol cyfnewid blychau gyda theulu a ffrindiau sy’n llawn mithai, ffrwythau sych, cnau neu arian wedi'u haddurno'n foethus.



Mae gwahanol brydau arbenigol yn cael eu coginio'n draddodiadol ar wahanol ddiwrnodau'r ŵyl. Yn gyffredinol, mae puris wedi'i ffrio mewn ghee drud yn cyd-fynd â dal, cyri llysiau a manion fwydydd fel pakoras, a elwir gyda'i gilydd yn "namkeen" neu "farsan". Ac wrth gwrs fe fydd phwdin ar bob diwrnod o'r ŵyl. Mae llawer o Indiaid, er nad y cyfan, yn parhau i fwyta'n llysieuwyr yr adeg hon o'r flwyddyn.



Ar ddiwrnod cyntaf mae "lapsi", pwdin gwenith wedi ei goginio mewn ghee cyn ychwanegu siwgr, cnau a ffrwyth sych, yn boblogaidd iawn. Mae cyri o ffa llathen i gyd-fynd ag ef sydd, oherwydd eu hyd (gweler y llun), yn symbol o hirhoedledd.

Ar yr ail ddiwrnod gweinir anarasa, pryd reis a jaggery a all gymryd hyd at saith diwrnod i'w baratoi. Mae’n cael ei fwyta gyda phakoras a phwdin reis llaethog o'r enw kheer.

Ar ddiwrnod Diwali gweinir cyri o "galaka", llysieuyn tebyg i gorbwmpen gyda "ukkarai", dysgl wedi'i stemio o ffacbys hollt a chytew ffa mwng.

Parhad tudalen 11 >

# Menter Caerdydd

**Mis Prysur yng Nghwmni'r Mentrau**

*Chwilio am rywbeth i'w wneud dros yr wythnosau nesaf? Beth am gymryd cip ar galendr Menter Caerdydd a Menter Bro Morgannwg?*

**Mewn Tiwn**

Bydd Aneirin Jones yn dychwelyd i Ganolfan Beulah, ddydd Llun, 27 Tachwedd i'n diddanu ar y ffidil. Bydd paned ar gael cyn y gyngerdd a'r cyfan yn rhad ac am ddim. Edrychwn ymlaen at groesawu'r gantores a chyfansoddwraig o sir Benfro, Lowri Evans, ar fore Llun, 18 Rhagfyr i ddathlu'r Nadolig.

**Sesiynau Pampro Neal's Yard Remedies**

Hoffech chi drio cynnyrch harddwch naturiol Neal's Yard Remedies yn rhad ac am ddim? Cynhelir gweithdy dros Zoom, nos Sul, 26 Tachwedd a sesiwn wyneb yn wyneb yng Nghlwb Tennis yr Eglwys Newydd fore Gwener, 1af Rhagfyr. Yn ymuno â ni fydd yr arbenigwraig Kelly Lewis fydd yn rhannu samplau i'w defnyddio yn y sesiynau ac yn cynnig cyngor ar ddewis olewau hanfodol, eli croen a chynnyrch naturiol.

**Ymweliadau/Teithiau Tywys**

Mae ein taith dywys i Arddangosfa Artes Mundi bellach yn llawn ond mae digon o lefydd ar gael ar ein hymweliad ag adeilad hardd Cwrt Insole yn Llandaf. Dyddiad y daith yw bore Iau, 7 Rhagfyr a'r gost yw £3. Ewch i'r wefan i gofrestru: https://mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

**Sgwrs y Mis**

Dr Gethin Rhys Thomas, Uwch Ddarlithydd Sŵoleg ym Mhrifysgol Abertawe, fydd yn mynd â ni ar 'Daith i Fyd y Parasitiaid', nos Iau, 16 Tachwedd. Mae parasitiaid yn aml yn cael eu hanwybyddu pan fyddwn yn ystyried bioamrywiaeth ecosystemau, er eu bod yn chwarae rôl hanfodol wrth gynnal cydbwysedd ecolegol. Ymunwch â ni ar Zoom i ddysgu mwy am eu byd rhyfedd. https://mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

**Plant**

Wedi hanner tymor prysur o weithgareddau, bydd ein sesiynau Amser Stori a'r clybiau i blant cynradd yn parhau hyd y Nadolig. Cofiwch am ein Gweithdai Gwyddoniaeth gyda SparkLab, ddydd Llun, 6 Tachwedd yn Ysgol Pwll Coch a dydd Llun, 20 a dydd Mercher, 22 Tachwedd yn Ysgol Pencae. Mae'r niferoedd yn gyfyngedig felly archebwch le i'ch plentyn nawr!

**Gigs y Fro**

Mae pob tocyn wedi'i werthu ar gyfer cyngerdd 'Pedair' yn y Bont-faen ar ddechrau Rhagfyr. Ond cofiwch fod




modd prynu tocynnau ar gyfer gig 'Mynediad am Ddim' (nos Sadwrn, 27 Ionawr), ar wefan y Memo: https://memoartscentre.co.uk/cy/Shows/mynediad-am-ddim/

**Laffwyl**

Chwilio am rywbeth i godi calon? Beth am fynd draw i dafarn Parc Fictoria, nos Iau, 30 Tachwedd i fwynhau noson stand yp? Bydd yr MC Aled Richards yn cyflwyno'r digrifwyr Daniel Glyn, Eleri Morgan a Josh Pennar. Mae tocynnau ar gael ar wefan Menter Caerdydd am £8. https://mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

**Siaradwyr Newydd**

Wedi llwyddiant y digwyddiad yn Sain Ffagan ym mis Medi, byddwn yn cydweithio â'r Amgueddfa a Dysgu Cymraeg Caerdydd i gynnal mwy o sesiynau anffurfiol i ddysgwyr bob tymor. Beth am ymuno â ni ar fore Iau, 30 Tachwedd (10.00-12.00) i ddysgu mwy am draddodiadau'r Nadolig yng Nghymru, i chwarae gemau a sgwrsio? I gofrestru, ewch i: https://forms.gle/E2SLUJH4vuEwTG4i7 Cofiwch hefyd am y bore coffi ar Zoom bob dydd Gwener ola'r mis am 10.30.

**Cyfarfodydd Blynyddol**

Mae croeso i chi ymuno â staff ac aelodau Bwrdd y ddwy Fenter ar gyfer ein cyfarfodydd blynyddol wrth i ni fwrw golwg yn ôl dros flwyddyn brysur o waith ac edrych ymlaen at y dyfodol.

**Menter Caerdydd** – nos Fawrth, 28/11/23 – 6:00yh yn yr Hen Lyfrgell, Yr Ais;

**Menter Bro Morgannwg** – nos Fawrth, 5/12/23 – 6:00yh, lleoliad i'w gadarnhau.

**I gofrestru:**

post@mentercaerdydd.cymru

**Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru**
**Facebook: @m.caerdydd**
**Instagram: @mentercaerdydd**
**E-bost: post@mentercaerdydd.cymru**
**Ffôn: 029 2068 9888**

## Colofn Blasus a Iachus
### (Parhad)

Bydd hefyd "sheera", semolina wedi'i ffrio â rhesins, cnau cashiw, cardamom a saffrwm; uwd gwenith hollt, ghee a siwgr a elwir yn "kansar"; toesenni briwsionllyd "balushahi"; a bara gwastad melys wedi'u stwffio â stwnsh phys, saffrwm a cardamom o'r enw "poli". Am wledd ynte?



Ar y pedwerydd diwrnod fe fydd cyrri llysiau cymysg wedi'u gwneud â chymaint o amrywiaethau o lysiau â phosibl, gan fod hyn yn symbol o gyfoeth coginio trwy gydol y flwyddyn. Mae hefyd "puris" â "shrikhand", pwdin oer wedi'i wneud o iogwrt, saffrwm, cardamom a chnau pistachio.

I ddathlu'r perthynas rhwng brodyr a chwioryddd, ar gyfer diwrnod 5 mae merched yn gwneud hoff brydau a melysion eu brodyr, ac yn cael anrhegion moethus yn gyfnewid.



Yn ddathliad bywiog a lliwgar, mae Dilwali yn sicr yn canolbwyntio ar amrywiaeth hyfryd o fwyd a phwysigrwydd rhannu'r bwyd hwn gyda ffrindiau a theulu. Does ryfedd fod y dyrfa griced yn cyffroi, mae'r gwledda sydd ar fin digwydd yn llawer mwy cyffrous na eistedd i lawr i fwyta twrci a phwdin Nadolig!

Mae hefyd yn cynrychioli buddugoliaeth dda dros ddrygioni, golau dros dywyllwch a doethineb dros anwybodaeth. Beth allai fod yn bwysicach?

# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):**

**Mis Tachwedd 2023:**
5ed Tachwedd – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
12fed Tachwedd – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Owen
19eg Tachwedd – Oedfa dan ofal y Parchedig Robert Owen Griffiths
26ain Tachwedd – Cyflwyniad cerddorol - "Y Gwynfydau" (am 6:00 p.m.)

**Mis Rhagfyr 2023:**
3ydd Rhagfyr – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
10 fed Rhagfyr – Oedfa "9llith a Charol" (am 5:00 p.m.)
17eg Rhagfyr – Nadolig yr Ysgol Sul
24ain Rhagfyr – I'w drefnu
25ain Rhagfyr – Oedfa Bore'r Nadolig (am 10:00 a.m.)
31ain Rhagfyr – Oedfa dan ofal Delwyn Sion

---oooOOOooo---

Wrth i gyfnod hynod lwyddiannus gweinidogaeth rhan-amser y Parchedig T J Davies ddirwyn i ben, 'roedd aelodau Bethlehem, Gwaelod-y-garth yn teimlo'n ddigon hyderus i newid gêr ac yn awyddus i chwilio am weinidog llawn-amser. Roedd canrif newydd a milflwydd newydd ar y gorwel, ac yn ddi-os 'roedd hynny yn sbardun ychwanegol i'w penderfyniad.

Roedd Sul Ionawr yr 2il, 2000, wedi ei glustnodi fel gwasanaeth olaf T J fel ein Gweinidog, gyda chyfarfodydd o werthfawrogiad o'i wasanaeth i'w cynnal ar nos Sadwrn y 29ain a dydd Sul y 30ain o Ionawr. Ond oherwydd anhwylder, bu gorfu eu gohirio hyd Sul yr 23ain o Orffennaf 2000.

O fewn ychydig wythnosau i hynny, am 2:00 p.m. ar ddydd Sadwrn y 23ain o Fedi 2000, cynhaliwyd Cyfarfod Sefydlu y Parchedig Gareth Evans Rowlands fel Gweinidog llawn-amser Bethlehem, Gwaelod-y-garth.

TJ oedd yn Llywyddu yn ystod y cyfarfod hwnnw, a chafwyd cyfraniadau gan nifer o'r aelodau a phlant yr Ysgol Sul. Cyflwynwyd anerchiad gan y Parchedig Pryderi Llwyd Jones, gyda'r Parchedigion Richard Lewis a Carys Ann, a Mr David Parry hefyd yn cymryd rhan. Ifan Roberts, yr Ysgrifennydd ar y pryd, fu'n gyfrifol am adrodd hanes yr alwad, a Wynford Ellis Owen a gyflwynodd groeso Bethlehem i'r Gweinidog newydd.

Roedd lluniaeth wedi ei baratoi wedi'r cyfarfod – "*Croeso i bawb ohonoch at y byrddau yn y Festri ac yn y babell ar y lawnt*" sydd ar waelod y daflen swyddogol!

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng Nghaerdydd a'r Cylch ym Mehefin 2002. Cyhoeddwyd "Llawlyfr Ymwelwyr" ar gyfer yr achlysur, oedd hefyd, yn ôl y clawr, yn cynnwys "*Braslun o Hanes Diweddar yr Eglwysi sydd yn gwahodd*".

Cadeirydd "Swyddogion Pwyllgor Lleol Caerdydd a'r Cylch" oedd y Parchedig Ddr R Alun Evans.

Ifan Roberts fu'n paratoi hanes Bethlehem ar gyfer y Llawlyfr, a cheir llun o'r Parchedigion T J Davies a Gareth Evans Rowlands ar frig yr erthygl.

Dyma fel y cofnodir peth o'r hanes ganddo:

"*Mae hi bron yn ddwy flynedd bellach ers i ni weld sefydlu y Parchedig Gareth Evans Rowlands yn weinidog arnom. Bu rhai o'r swyddogion ar deithiau meithion dan lenni'r nos i Geredigion i'w gymell i ddod i'n plith. Ein gofid pennaf oedd ein diffyg profiad ym maes galw bugail – wedi'r cwbl, dim ond pump oedd Bethlehem wedi ei gael yn y ganrif flaenorol, gan gynnwys un arhosodd am hanner can mlynedd! Erbyn gweld, yr oedd Gareth ei hunan yr un môr nerfus ond mae o wedi dysgu dygymod yn rhyfeddol â ni, chwarae teg!*"

Fe roddwn ni'r gair olaf i'n bugail:

"*Pan gefais i'r gwahoddiad i ddod yn weinidog i Fethlehem, Gwaelod-y-garth, ar y pryd roeddwn rhwng dau feddwl, am fod sgidiau T J Davies yn rhai anodd i'w llenwi ac am fod yr eglwys ar gyrion Caerdydd, a minnau heb ddychmygu y byddwn byth yn gweinidogaethu mor bell i'r de o dan Aberystwyth. Beth bynnag, wedi cytuno i gwrdd â swyddogion Bethlehem mi dderbyniais yn syth oherwydd eu bod i gyd mor ifanc, mor 'easy going' ac yn awchu i weld ffyniant yn eu heglwys - ffyniant a ddeuai wrth gydweithio, rhoi-a-derbyn, 'trial and error', heb unrhyw rygnu na bustachu.*

*Felly dyma ddechrau ar fy ngweinidogaeth ym Medi 2000 ac yn wir, felly mae pethau wedi bod ers i mi ddechrau. Dwi wedi cael yr aelodau yn braf a chartrefol, yn gweithio heb eu hail yn yr eglwys er fod pawb mor brysur ar adegau. Mae'r Ysgol Sul yn ffyniannus dros ben a pheth braf ydi cael rhannu mewn oedfaon hefo'r plant a'u teuluoedd a'u cael mor barod i gymeryd rhan yn yr holl weithgaredd. Mae CAIB sef, Clwb Annibynnol Ieuenctid Bethlehem, yn dal ei dir yn dda a byddwn yn mwynhau nosweithiau Sul hynod ddifyr ac adeiladol am 6:00 yr hwyr.*

*Mae'r ieuenctid yn hawdd ymwneud â nhw - yn barod i siarad a thrafod syniadau, yn agored eu barn a cefnogol i bob arbrawf. Mae criw hŷn hefyd sydd yn y colegau yn galw 'nôl yn gyson a chadw cysylltiad. Peth braf i weinidog ifanc yw cael y criw yma mor hawdd i wneud â nhw ac mor barod i fod n rhan o bethau, yn*



Derbyn deg aelod ifanc newydd mewn oedfa Gymun bore Sul cyntaf mis Rhagfyr 2005

*enwedig ar achlysuron arbennig fel y Nadolig. Mae 'na arbrofi wedi bod mewn gwahanol ffyrdd a da ydi dweud fod pawb yn gadarnhaol a pharod i dderbyn amrywiaeth mewn oedfaon a gweithgaredd.*

*A sôn am weithgaredd mae ymwybyddiaeth gymdeithasol wych yma ond fe allwn hyd yn oed wella ar hynny maes o law. Cydweithir rhwng yr ysgol leol a chymdeithasau fel Clwb y Dwrlyn ac ati. Derbyniais 13 o ieuenctid yn gyflawn aelodau y llynedd, yn fy ail flwyddyn, a 'dwi wedi bedyddio nifer yn barod a bu yma un briodas..*

*Dyna ydi eglwys dda ac eglwys felly ydi Bethlehem - hen griw iawn ydyn nhw a swyddogion gwerth chweil. Dwi'n newydd o hyd, ond os gallwn ni fynd ymlaen gan wella eto ar y rhagoriaethau a dileu unrhyw wendidau, yn ac fe fyddwn yn tystio yma ymhell i'r unfed ganrif ar hugain!"*

Serch y bwrlwm a'r brwdfrydedd a fynegwyd yn y datganiad uchod, ymhen dwy flynedd gorfu i'r Gweinidog a'r aelodaeth wynebu her ariannol, a olygodd newid yn nhrefn y weinidogaeth ym Methlehem.

O hynny 'mlaen Gweinidog rhan-amser fyddai gan Fethlehem.

Ac fe groniclwyd y newid ganddo yn ei neges Nadolig yn 2004 fel a ganlyn:-

"*Er na fu y flwyddyn hawddaf yn fy hanes – yn gorfod derbyn ewyllys yr Eglwys, a phenderfyniadau anodd eraill fydd yn effeithio ar fy ngweinidogaeth yma ym Methlehem – rwy'n eiddgar, bellach, i fwrw 'mlaen ag arddeliad i gynllunio ar gyfer dyfodol fydd yn gynhyrfus rwy'n siwr, ond a fydd hefyd gryn dipyn yn wahanol o ran trefn i'r hyn 'rydym ni wedi arfer ag o yn y gorffennol.*

*Os yw'r cynllun newydd o weithredu o fis Ebrill 2005 ymlaen, yn mynd i ddwyn ffrwyth ysbrydol, golyga cymaint a hynny'n fwy o ymroddiad gennych chwi at waith a dyletswyddau'r Eglwys. Rwyn hyderus yr ymatebwch yn gadarnhaol i bob gofyn newydd a ddaw i'ch rhan; addawaf innau wneud yr un modd, fel y bydd mwy fyth o lewyrch ar yr Achos yn ein plith – a Duw yn cael Ei Iawn, briod le yng nghanol ein bywydau prysur.*"

Bu'n ddiwyd yn ôl ei addewid a bu iddo dderbyn deg aelod ifanc newydd yn gyflawn aelodau mewn oedfa Gymun ar y bore Sul cyntaf ym mis Rhagfyr 2005 (gweler y llun uchod a ymddangosodd yn "Tafod Elái" rhifyn Chwefror 2006).

# Ysgol Llanhari

**Diwrnod Shw'mae, Su'mae**
Dathlwyd Diwrnod Shw'mae, Su'mae yn yr ysgol ar ddydd Gwener, Hydref 13eg. Braf oedd clywed gymaint o Gymraeg yn cael ei defnyddio ar draws yr ysgol. Aeth ein Dreigiau Doeth o'r adran gynradd draw i Ysgol Llansannor i ddysgu gemau buarth iddynt - ymdrech a chydweithio arbennig.



**Chwaraeon**



Llongyfarchiadau mawr i dîm rygbi blwyddyn 5 a 6 sydd wedi cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth yr Urdd ac yng nghystadleuaeth rygbi ysgolion Pontypridd. Da iawn fechgyn! Llongyfarchiadau mawr hefyd i Mali ac Ava o'r adran uwchradd sydd wedi eu dewis i garfan pêl-rwyd Cymoedd Morgannwg - pob lwc i chi'ch dwy!



**Trip blwyddyn 3 a 4**
Mwynheuodd disgyblion blwyddyn 3 a 4 drip hyfryd i'r Synagog a'r Deml yng Nghaerdydd i gyd-fynd gyda'u thema. Roedd hi'n drip diddorol iawn gyda llwyth o ffeithiau newydd i'w dysgu. Ar y ffordd adref, cawsant gyfle i fynd i ymweld â'r RNLI ym Mhenarth, taith hyfryd i weld ein disgyblion yn dysgu am arwyr yn y gymuned.






**Cynllun cyfaill**
Mae Cynllun Cyfaill yr ysgol wedi ailgychwyn eleni gyda disgyblion hŷn yr adran uwchradd yn ymweld â dosbarthiadau'r adran gynradd. Braf yw gweld y plant yn mwynhau ac yn dysgu gyda'i gilydd.



**Ymwelwyr**
Rydyn ni wedi croesau llwyth o ymwelwyr i'r ysgol. Diolch i Allyn Jones, swyddog hawliau Rhondda Cynon Taf am ddod i drafod hawliau gyda'r disgyblion. Hefyd, croesawyd Aled a Paul o 'Only Boys Aloud' i gynnal gweithdy gyda disgyblion blwyddyn 7 a 8.

**Trosglwyddo**
Diolch i ddisgyblion blwyddyn 6 Ysgol Llantrisant, Dolau a Thonyrefail am ddod atom ni yn ddiweddar ar gyfer ein diwrnod trosglwyddo. Hyfryd oedd gweld y disgyblion yn dod i adnabod ei gilydd ac yn mwyhau ar yr iard amser egwyl.

**Llangrannog**
Cafodd disgyblion o flwyddyn 5 a 6 amser arbennig yn Llangrannog diwedd mis Medi. Buont yn mwynhau dringo, marchogaeth ceffylau, rasio ceir ac wrth gwrs dawnsio yn y disgo. Roedd ymddygiad y plant yn arbennig yr holl amser a phawb wedi mwynhau mas draw! Diolch i'r staff hefyd a fynychodd.



**Gwasanaeth y Cynhaeaf**
Daeth y disgyblion i gyd at ei gilydd er mwyn dathlu'r Cynhaeaf ar Hydref 25ain. Diolch i ddisgyblion blwyddyn 5 am gynnal y gwasanaeth. Diolch yn fawr i Eleri Rowlands o'r Banc Bwyd lleol a ddaeth i drafod y gwaith hanfodol maent yn gwneud. Diolch i bawb a gyfrannodd duniau a phecynnau bwyd sych. Aeth ein llysgenhadon draw i'r Banc Bwyd ym Mhontyclun i roi'r casgliad o fwyd.



# Unigolion disglair mewn disgyblaethau STEM

Bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i RhCT ym mis Awst y flwyddyn nesaf. Ymhlith yr atyniadau bydd y Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg, gydag amrywiaeth o weithgareddau, arddangosfeydd, sgyrsiau, anerchiadau at bob oed, gyda'r pwyslais ar ddisgyblaethau STEM sef Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg, hefyd disgyblaethau tebyg megis meddygaeth.

Mewn cynnig ar gefnogi'r fenter rwy'n creu coflen o unigolion o gyn-ddisgyblion ysgolion uwchradd RhCT a enillodd amlygrwydd mewn gyrfaoedd yn ymwneud â disgyblaethau STEM. Mae'n anodd diffinio 'amlygrwydd' yn y cyswllt hwn; bydd rhaid derbyn barn bersonol. Rwy'n edrych ar y can mlynedd diwethaf.

Byddaf yn dra diolchgar am gymorth. Ble gwell i ddechrau na'r ysgolion neu'r sefydliadau a ddaeth i fod lle bu'r unigolion disglair yn ddisgyblion? Eisoes anfonais air atynt; yn awr mae'n bryd apelio at gynulleidfa fwy.

Mae gan Gymru etifeddiaeth gyfoethog yn y gwyddorau (STEM ac ati). Mae'n bryd i ddwyn hyn i sylw llawer mwy.

Y ffyrdd gorau i gysylltu yw trwy e-bost ar nevillebevans@gmail.com neu dros y ffôn ar 02920843806 a 07913257371.

Gyda diolch ac mewn gobaith cadarn. Byddai'n hyfryd cael ymateb erbyn Ionawr 1af 2024

Neville Evans

# ARHOLIADAU GORSEDD CYMRU

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i ardal Rhondda Cynon Taf yn 2024, beth am fynd ati dros fisoedd y gaeaf i baratoi ar gyfer sefyll arholiadau'r Orsedd, a thrwy hynny ddod yn aelod o'r Orsedd a chymryd rhan yn ei seremonïau a'i gorymdeithiau lliwgar?

Cynhelir yr arholiadau ysgrifenedig ym mis Ebrill a gallwch ddewis o blith nifer o feysydd cyfoes i arbenigo ynddynt: Barddoniaeth, Cerddoriaeth, Cerdd Dant, Iaith, Rhyddiaith, ynghyd ag arholiad arbennig i Delynorion. Mae rhai agweddau ar yr arholiadau Cerddoriaeth a Cherdd Dant yn rhai ymarferol y gellir eu cwblhau ar fideo a/neu yn electronig.

Os hoffech fwy o fanylion am yr arholiadau a'r gwahanol feysydd astudio, cysylltwch â mi cyn gynted â phosib yn: Llys Cerdd, 80 Cae Gwyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1LL (***e-bost:*** wgwyn.lewis@btinternet.com), ac fe anfonaf gopi o lyfryn y ***Maes Astudiaeth*** ar gyfer 2023-24-25 atoch.

Beth am roi cynnig arni, felly, er mwyn i chi gael bod yn rhan o seremonïau Gorsedd Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol pan ddaw i Wrecsam yn 2025?

Yr eiddoch yn gywir
Dr W Gwyn Lewis (Gwyn o Arfon)
Trefnydd Arholiadau Gorsedd Cymru

# Ysgol Evan James

**Chwaraeon**
Roedd mis Hydref yn fis prysur i dimoedd chwaraeon yr ysgol. Gwnaeth ein tîm rygbi yn wych yng nghystadleuaeth yr Urdd ar gaeau Newbridge ym Mhenybont. Cyrhaeddodd y tîm rownd yr wyth olaf. Arbennig! Aeth dau dîm pêl-droed o'r ysgol i gystadlu yn nhwrnament Rhondda Cynon Taf ac fe wnaethant yn wych. Da iawn chi!



Mae disgyblion o flynyddoedd 3-6 wedi bod yn nofio bob bore am bythefnos y mis hwn yn Ysgol y Ddraenen Wen. Mae sgiliau pob un wedi datblygu'n rhyfeddol.

**Sesiynau amgylcheddol Bryn Pica**
Mae canolfan amgylcheddol Bryn Pica wedi gweithio gyda dosbarthiadau Elin Fflur, Tom Jones a Cerys Matthews yn ddiweddar. Fe ddysgodd y plant am bwysigrwydd ailgylchu a nawr maent yn awyddus i helpu'r Cyngor Eco i sicrhau fod pawb yn yr ysgol yn ailgylchu.

**Dŵr Cymru**
Diolch i Keith o Ddŵr Cymru am gynnal gwasanaeth arbennig i'r ysgol gyfan yn trafod pwysigrwydd arbed dŵr. Yn dilyn y gwasanaeth, aeth o ddosbarth i ddosbarth yn gwneud arbrofion gyda'r disgyblion. Fe ddysgom gymaint ganddo.



**Canolfan Calon Taf**
Hoffem ddiolch i Aled o Ganolfan Calon Taf am y croeso cynnes pan aeth Dosbarth Bendigeidfran a Branwen i'r ganolfan i ddysgu mwy am hanes Parc Ynysangharad a hanes Pontypridd. Edrychwn ymlaen at gydweithio eto yn y dyfodol.




**Elusen Llamau**
Mae Dosbarth Branwen a Bendigeidfran yn dysgu am ddigartrefedd ac roeddent am wahodd rhywun sy'n gweithio i'r elusen Llamau i ddod i siarad. Fe ofynnodd y plant gwestiynau gwych er mwyn deall gwaith yr elusen yn well.



**Gwisgo Glas i Ysbyty Plant Cymru**
Mae'r Cyngor Iechyd a Lles a'r Senedd wedi dewis elusen y flwyddyn. Dewiswyd elusen Arch Noa, Ysbyty Plant Cymru gan fod un o'n disgyblion yn derbyn gofal gwych yno ar hyn o bryd. Gwisgodd pawb ddillad glas i'r ysgol er mwyn cefnogi'r elusen. Diolch i gymuned yr ysgol am bob haelioni.

**Pontio yn Garth Olwg**
Mae blynyddoedd 5 a 6 wedi ymweld ag Ysgol Garth Olwg y mis hwn ar gyfer sesiynau pontio. Sesiynau yn llawn hwyl! Yn ogystal, roedd blwyddyn 6 yn ffodus iawn i allu gweld perfformiad o'r sioe Legally Blonde yn yr ysgol. Diolch i bawb yn Ysgol Garth Olwg am brofiadau hyfryd.

**Disgo Calan Gaeaf**
Trefnwyd disgo i'r disgyblion gan Ffrindiau Evan James. Roedd pawb yn edrych yn wych yn eu gwisgoedd Calan Gaeaf. Diolch i Mr Rowlands am drefnu'r gerddoriaeth. Codwyd bron i £400. Diolch i chi oll am gefnogi.

Y



# Ysgol Dolau



Dolau yn dathlu Diwrnod Shwmae!



Diolch i'n ffrindiau ym Mhencoed Primary am drefnu a chynnal gêm gyfeillgar gyntaf y flwyddyn.



Diwrnod pontio cyntaf Blwyddyn 6 - ymweliad hyfryd yn Ysgol Llanhari



Buon ni'n ffodus iawn i gael ymweliad gan y cyn-chwaraewyr rygbi Nadine Griffiths, a fu'n trafod ei chap dros Gymru!

**Senedd yn cwrdd â Dawn Wood a Heledd Fychan**
Daeth y cynghorydd Dawn Wood a Heledd Fychan, aelod o'r Senedd, i gwrdd â Senedd ein hysgol y mis hwn. Gofynnodd y Senedd gwestiynau gwych iddynt am eu gwaith a'u cynlluniau am y dyfodol a thref Pontypridd.

# PONTYPRIDD

Gohebydd y mis: Margaret Francis

**Pwyllgor Apêl Pontypridd**
Ar Hydref 5ed cynhaliwyd de prynhawn yng Nghanolfan Calon Taf ym Mharc Ynysangharad. Roedd pawb wrth eu bodd gyda'r lleoliad ac roedd y lluniaeth yn fendigedig. Diolch i Jayne Rees am drefnu ac i bawb wnaeth baratoi'r teisennau a'r brechdanau hyfryd.



Llongyfarchiadau i Eurgain Haf a Lowri Mared a gymerodd ran yn Ras Marathon Caerdydd. Llwyddodd y ddwy i godi cryn dipyn o arian i Gronfa Apêl Pontypridd ac i Gylch Meithrin Cilfynydd.

Diolch hefyd i blant Ysgol Pontsionorton, Ysgol Uwchradd Pontypridd ag Ysgol Heol y Celyn am chwyddo'r coffrau drwy gynnal amrywiaeth o weithgareddau codi arian.

Dyma restr o ddigwyddiadau i'w rhoi yn eich dyddiaduron:
Pwyllgor ardal Pontypridd. Beth am ymuno?
Tachwedd 17fed Ysgol Evan James yn trefnu Cwis yng Nghlwb Rygbi Rhydfelen
Tachwedd 17fed Merched Pwerus Clwb y Bont £7.00 wrth y drws
Tachwedd 24ain Noson o ganu gyda Chôr Cymundebol Pontypridd yng Nghlwb y Bont, noson cynnau goleuadau Nadolig y dref
Tachwedd 26ain Stondin yn Ffair Nadolig y District Club 12pm - 4pm
Tachwedd 29ain yng Nghanolfan YMa Bando'r Beirdd
Tachwedd 30ain Stondin yn Ffair Nadolig Pontsionorton
Rhagfyr 13eg Clwb y Bont Cwis Nadolig

**Merched y Wawr**
Diolch yn fawr i Siwan Hill am ei chyfraniad diddorol yn ein sesiwn Mis Hydref, Mae Siwan yn byw yng Nghaerdydd gyda ei theulu, Bu'n athrawes yn ysgolion Glantaf a Llanhari. Un o'i hobiau dros y blynyddoedd yw casglu llestri Goudy. Erbyn hyn mae



ganddi gasgliad arbennig, yn llenwi dau gwpwrdd o'r nenfwd i'r llawr. Cafwyd y cyfle i weld sampl o'r patrymau arbennig hyn.

Mis nesaf Tachwedd 9fed bydd yr aelodau yn mwynhau noson yn Bowlio deg yn Nantgarw. Cysylltwch gyda Jayne os ydych am ymuno gyda ni. Bydd gwasanaeth Nadolig Merched y Wawr yn cael ei gynnal yng Nghapel Efail Isaf ar Ddydd Sul Tachwedd 26ain

Mis Rhagfyr 14eg noson Nadolig yr aelodau yng Nghlwb y Bont.

**Clwb y Bont**
Fel rhan o ddathliadau penblwydd y Clwb yn ddeugain oed, cafwyd noson hyfryd yng nghwmni Caryl Parry Jones yn canu ei chaneuon adnabyddus a phoblogaidd. Noson wych.

**Cydymdeimlo**
Estynwn sin cydymdeimlad llwyraf at Gwerful, Menna a Geraint Thomas o golli Aled, Graigwen Pontypridd.

**Amgueddfa**
Mae grwp o ddysgwyr sy'n cwrdd yn wythnosol ar fore dydd Iau yn yr amgueddfa yn esiampl wych o sut mae'r iaith yn ffynnu ym Mhontypridd. Mae ei brwdfrydedd tuag at ddysgu'r iaith yn heintus ac yn galonogol. Daw criw o wirfoddolwyr i siarad gyda'r dysgwyr a mwynhau eu cwmni. Croeso cynnes i unrhyw un sydd a diddordeb i ymuno.

**Swyddog Datblygu Clwb y Bont**
Mae Clwb y Bont yn falch iawn i gyhoeddi penodiad Aled Wyn Phillips fel Swyddog Datblygu. Mae ganddo flynyddoedd o brofiad o fewn y diwydiant adloniant. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr i weld ei syniadau yn dwyn ffrwyth yng Nghlwb y Bont wrth i ni ddathlu 40 mlynedd o fodolaeth. Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld â Phontypridd ym mis Awst 2024, does dim amheuaeth gennym y bydd Clwb y Bont yn rhan annatod o ddathlu digwyddiad mor bwysig yn y calendr Cymreig.



Dywedodd: “Dwi’n edrych ymlaen at ddechrau ar yr her newydd a chyd-weithio gydag aelodau brwd Clwb y Bont er mwyn datblygu’r lleoliad ymhellach fel adnodd sydd wrth galon cymuned Cymry Pontypridd.”

**Clwb Llyfrau**
Os ydych yn mwyndarllen a thrafod llyfrau, ymunwch gyda'r Clwb Llyfrau sydd yn cwrdd yn y Llyfrgell Yn Mhontypridd. Bydd y grwp yn cwrdd nesaf ar Dydd Mercher Tachwedd 14ain.

**Parc Ynysangharad**
Gwelir yn ddiweddar bod llawer o waith yn digwydd yn y parc. Mae'r tir wrth ochr y brif mynedfa bellach yn wastad gyda llwybrau newydd o gwmpas. Mor braf i weld cymaint o weithgareddau cyffrous yn cael eu cynnal yng Nghanolfan Calon Taf a'r bandstand. Ac erbyn hyn mae adeilad M&S wedi dymchwel yn llwyr.

**Barddoniaeth**
Daeth cais oddiwrth nifer ohonoch i ddarllen a gwerthfawrogi barddoniaeth Aneurin Karadog er cof am Gareth Miles, dan y teitl 'Medi Gobeithion'.

Gohebwyr Mis Rhagfyr : Sian a Mike Ebbsworth



# Ysgol Creigiau

**Llangrannog**
Croeso nôl i ddisgyblion Dosbarth 6 a Class 6 wedi iddynt dreulio wythnos yr un yn y Gwersyll ger y lli! Roedd pob un wedi mwynhau'r antur yn fawr iawn ac wedi dangos ymddygiad ac agwedd arbennig drwy gydol yr amser. Da iawn chi blant! Diolch yn fawr iawn i Miss Watkins, Mr Williams, Mrs Willis, Miss Davies, Miss Griffin, Mrs Tewkesbury, Mrs Stone a Mrs John am fynd gyda'r disgyblion.



**Gweithdai Dawns Affricanaidd**
Roedd disgyblion Blwyddyn 1 a 2 wedi mwynhau cymryd rhan mewn gweithdai Dawns Affricanaidd. Fe ddysgon nhw symudiadau dawns Affricanaidd sy'n cael eu datblygu yn eu gwersi Addysg Gorfforol wythnosol.

**Gweithjdai 'Resolve It'**
Cymerodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 ran mewn gweithdai 'Resolve It'. Dysgon nhw am ddiogelwch personol gan gynnwys sut i gadw'n ddiogel ar-lein a pha blatfformau cyfryngau cymdeithasol sy'n addas ar gyfer eu grwpiau oedran. Dysgodd pawb wersi gwerthfawr.

**Prosiect Sbectrwm**
Yn ystod yr hanner tymor hwn cyflwynodd Lesley Curtis, o'r Prosiect Sbectrwm, gyfres o dri gweithdy addas i ddisgyblion Derbyn, Blwyddyn 2, 4 a 6. Mae gweithdai Sbectrwm yn cefnogi addysgu'r llinyn 'Cydberthnasau a Hunaniaeth' yn y cwricwlwm ACRh (Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb). Mwynheuodd pawb y gweithdai diddorol.



**Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd**
Ddydd Mawrth dathlon ni Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd trwy gynnal amrywiaeth o weithgareddau meddwlgarwch a phositifrwydd.

**Dŵr Cymru**
Daeth Keith, o Ddŵr Cymru, i'r ysgol i



gynnal gwasanaethau i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 a gweithdy 'Stop Cyn Creu Bloc' i ddisgyblion Blwyddyn 4 a gweithdy 'Cylchred Ddŵr' i ddisgyblion Blwyddyn 2. Roedd pawb wedi mwynhau'r sesiynau addysgiadol. Diolch Keith!

**Diogelwch Dŵr yn y Gaeaf**
Ymwelodd Jodie a Kieran o'r Tîm 'Better Aquatics' â'r ysgol i gyflwyno dau wasanaeth Diogelwch Dŵr yn y Gaeaf - un ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen ac un ar gyfer ein disgyblion CA2. Roedden nhw eisiau gwneud y disgyblion yn ymwybodol o'r peryglon o amgylch dŵr wrth i ni symud i fisoedd y gaeaf. Roedd y disgyblion wedi mwynhau'r gwasanaethau'n fawr a dysgon nhw wersi gwerthfawr.



**Diwrnod Shwma Su'mae**
Fe ddathlon ni ddiwrnod Shwmae Su'mae wrth gael llawer o hwyl drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Dangoswch y cerdyn Coch i Hiliaeth**
Diolch i'n teuluoedd am eu cyfraniadau i 'Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth'. Bu'r disgyblion yn brysur drwy'r dydd yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau diddorol yn gysylltiedig â'r Diwrnod Gwisgo Coch. Casglon ni £187.80 i'r elusen.



**Prosiect Bylbiau'r Gwanwyn**
Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 5 yn cymryd rhan ym Mhrosiect Bylbiau'r Gwanwyn mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Edina. Bydd y disgyblion yn ymchwilio i sut mae newid tymhorau'n effeithio ar flodau'r gwanwyn. Maent wedi plannu eu bylbiau yn ddiweddar a byddant yn dechrau monitro ac arsylwi ar eu twf yn y Flwyddyn Newydd.

**Gwasanaeth Cynhaeaf y Dosbarth Derbyn**
Diolch yn fawr iawn i'r Dosbarth Derbyn am gyflwyno Gwasanaeth Cynhaeaf gwych o flaen eu teuluoedd a'r ysgol gyfan.

**Casgliad y Cynhaeaf**
Diolch yn fawr i'n teuluoedd am eu cyfraniadau i Bantri Dusty Forge, elusen yn Nhrelai a Chaerau. Bu rhai o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn brysur yn didoli'r bwydydd cyn iddynt gael eu casglu a'u rhannu.



**Grŵp Gweithredu ar Faeth yn yr Ysgol**
Yn ddiweddar bu'n Grŵp Gweithredu ar Faeth yn yr Ysgol (SNAG) yn brysur yn paratoi a choginio cawl pwmpen maethlon ac iachus. Roedd pawb yn cytuno ei fod yn flasus iawn! Diolch i Mrs Cornwall am eu helpu.



**Sialens Darllen yr Haf**
Daeth llyfrgellydd o Lyfrgell Caerdydd â 47 o dystysgrifau a medalau i'r ysgol i'r disgyblion a gymerodd ran yn Sialens Ddarllen yr Haf. Da iawn bawb!

**Gweithdai Drymio Affricanaidd**
Cymerodd disgyblion Dosbarth 3 a Class 3 ran mewn gweithdy Drymio Affricanaidd. Mwynheuodd pawb y profiad yn fawr!

**Gŵyl Hawliau**
Aeth aelodau o'n Cyngor Ysgol a Hawliau Plant o Flynyddoedd 5 a 6 i Stadiwm Dinas Caerdydd i gymryd rhan mewn Gŵyl Hawliau. Gwahoddodd Tîm Caerdydd sy'n Dda i Blant ddisgyblion o Ysgolion Caerdydd i gymryd rhan mewn diwrnod llawn hwyl o gemau, gweithdai, perfformiadau a gweithgareddau dan ofal eu sefydliadau partner. Cafodd y disgyblion gyfle i ddysgu am a dathlu eu hawliau. Dathlon nhw Erthygl 31 sy'n datgan "bod gan blant yr hawl i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden" ac Erthygl 29 sy'n datgan "bod gan blant yr hawl i ddatblygu personoliaeth a thalentau". Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr.



**Disgo Calan Gaeaf**
Trefnodd Cyfeillion yr Ysgol ddisgo Calan Gaeaf gwych i'r disgyblion yn neuadd yr ysgol. Roedd y neuadd dan ei sang gyda gwrachod, sgerbydau a phob math o greaduriaid brawychus eraill! Diolch i Gyfeillion yr Ysgol am eu gwaith caled yn trefnu'r disgo.



# Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

**Trip i Techniquest**
Fel rhan o'u thema 'Byd Llawn Hud' fe aeth disgyblion o Flynyddoedd 3 i 6 ar ymweliad â Techniquest. Roedd pawb wedi gwir fwynhau'r profiad ac wedi dysgu llawer o ffeithiau gwyddonol yn ystod eu gweithdai yn y labordy.



Blwyddyn 3 yn Techniquest.

**Anti Cheryl**



Trist oedd ffarwelio gyda anti Cheryl sef Mrs Cheryl Williams - sydd wedi ymddeol ar ôl treulio cyfnod o bron i 33 mlynedd fel goruchwyliwr amser cinio. Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i ddiolch iddi am ei gwaith caled am blant yr ysgol dros yr holl flynyddoedd. Byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr.

**Disgo Calan Gaeaf**



Diolch yn fawr iawn i'r Cyngor Ysgol am drefnu 2 ddisgo calan gaeaf i'r plant. Roeddynt yn llwyddiannus iawn. Roedd pawb wedi cael amser wrth eu boddau ac wedi gwneud ymdrech arbennig gyda'u gwisgoedd ffansi!



**Jambori yr Urdd**
Roedd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 wedi mwynhau mas draw canu gyda Martin Geraint yn Jambori'r Urdd yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant. Diolch i'r Urdd am drefnu bore o hwyl i'r plant.



Jambori yr Urdd

**Gwasanaeth Diolchgarwch**
Braf oedd croesawu'r Parchedig Evan Morgan, Capel Salem Treganna i'r ysgol eleni i gynnal ein gwasanaeth Diolchgarwch. Cafwyd eitemau amrywiol gan y disgyblion fel rhan o'r gwasanaeth. Daeth y plant a chyfraniad hael iawn o fwydydd a phethau ymolchi i'w rhannu â'r banciau bwyd lleol.



Gwasanaeth Diolchgarwch gyda'r Parch Evan Morgan

**Cyngor Ysgol**
Llongyfarchiadau i enillwyr etholiadau'r Cyngor Ysgol. Ar ôl gwrando ar neges yr ymgeiswyr aeth y plant ati i fwrw eu pleidlais. Maent bellach wrthi'n brysur yn datblygu syniadau amrywiol.



Y Cyngor Ysgol ar Waith

**Llysgenhadon Gwych Comisiynydd Plant Cymru**
Cafodd ein Llysgenhadon Gwych gyfle i gyfarfod Comisiynydd Plant Cymru - Rocio Cifuentes yn ystod cynhadledd ar lein yn ddiweddar. Maent nawr wrthi yn cydweithio gyda'r Cyngor Ysgol i hyrwyddo Hawliau Plant.



**Diwrnod Shwmae Su'mae**
I ddathlu diwrnod Shwmae Su'mae - bu'r plant wrthi yn brysur yn annog a helpu eu rhieni a'r gymuned leol i ddefnyddio'r Gymraeg. Cafwyd cefnogaeth ac ymdrech arbennig gan bawb. Recordiwyd a rhannwyd y sgyrsiau drwy ddefnyddio côd QR. Bu aelodau'r U3A yn gwrando ar sgyrsiau'r plant yn ystod eu gwersi Cymraeg yn yr ysgol.



Aelodau U3A yn edrych ar waith diwrnod ShwmaeSumae

**Diwrnod Trosglwyddo Blwyddyn 6**
Fel rhan o raglen trosglwyddo'r clwstwr - cynhaliwyd carwsél o weithgareddau creadigol a mynegiannol. Mae plant Blwyddyn 6 yn edrych 'mlaen yn arw i'r diwrnod trosglwyddo nesaf.



**Gwersyll Llangrannog**
Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 amser wrth eu boddau yn ystod eu cwrs preswyl yn Llangrannog. Daeth yr haul allan i wenu ar y gweithgareddau. Diolch yn fawr i Miss Hughes, Mr Phillips a Miss Downes am edrych ar ôl y plant.



Blwyddyn 5 a 6 yn mwynhau yn Llangrannog

# Ysgol Garth Olwg

**Taith Llangrannog i flwyddyn 7**

Roedd cyffro mawr ar ddydd Mercher yr 20fed o Fedi wrth i ddisgyblion blwyddyn 7 deithio i wersyll yr Urdd yn Llangrannog.

Cafodd y disgyblion modd i fyw yn gwneud y gweithgareddau. Roedd y bag neidio yn boblogaidd iawn gyda'r disgyblion yn mwynhau neidio oddi ar y platfform uchel a glanio ar y bag aer. Roedd Mrs. Facey wedi wynebu'r her hefyd ar ôl llawer o gefnogaeth gan bawb! Roedd hefyd angen llawer o ddewrder i wneud y weiren zip – roedd y disgyblion yn wên o glust i glust wrth iddyn nhw wibio trwy'r awyr.

Roedd y cwrs rhaffau uchel wedi diddanu pawb ac roedd rhai disgyblion wedi dyfalbarhau ac wedi llwyddo er gwaethaf eu hofn uchder– da iawn chi! Roedd mynd i'r pwll nofio cynnes yn y tywydd oer hefyd yn braf.

Gyda'r hwyr, roedd gweithgareddau'r nos yn gyfle i'r disgyblion wneud pethau gwahanol. Ar y noson gyntaf, roedd pawb wedi gwario ffortiwn yn y siop. Yna, cawson nhw fodd i fyw wrth gwblhau gweithgareddau chwaraeon gyda'r swogs cyn gwneud bach o ddawnsio yn y twmpath. Ar yr ail noson, cerddon nhw dros y mynydd a draw i draeth Llangrannog.

Roedd y bwyd hefyd yn uchafbwynt gyda llawer o brydau bendigedig megis lasagne, *goujons* cyw iâr, pasta ac, wrth gwrs, sglodion! Erbyn cyrraedd yn ôl i'r ysgol ar brynhawn Gwener roedd pawb wedi blino'n lân ond wedi cael amser arbennig o dda yn y gwersyll ger y lli. Mae diolch mawr yn mynd i'r athrawon a'r swogs am ofalu am y disgyblion a hefyd wrth gwrs i Mrs. Bradberry a Mrs. Corey am drefnu.





**Llwyddiant chwaraeon**



Llongyfarchiadau enfawr i Noa King Blwyddyn 5 ar ei lwyddiant anhygoel. Bu Noa yn cynrychioli Cymru mewn pencampwriaeth 'Kickboxing' lle enillodd fedal aur ac efydd. Da iawn Noa!

**Diwrnod Pinc**

Ar gyfer cynyddu'r bwrlwm ar gyfer y Sioe Legally Blonde gwnaethom gynnal Diwrnod Pinc diwedd Mis Medi. Roedd



hyn ar gyfer hysbysebu'r Sioe yn ogystal â chodi arian ar gyfer cynnal y sioe a chronfa Eisteddfod Genedlaethol 2024. Roedd yn wych gweld yr ymdrech ar draws yr ysgolion.

**Sesiynau Samba Mark**

Mae disgyblion blynyddoedd 9 a 10 sy'n astudio cerddoriaeth wedi cael profiadau gwych o ddysgu arddull cerddorol y Samba efo Mark Hibbert dros yr hanner tymor hwn. Maent wedi cael 3 sesiwn ac wedi cael y profiad o chwarae offerynnau taro amrywiol gan gynnwys y drwm samba, tambwrin a chlychau agogo. Mae'r disgyblion wedi gallu datblygu eu sgiliau ensemble wrth chwarae gyda'i gilydd yn yr arddull Samba. Cafwyd profiad o chwarae rhythmau cymhleth a dysgu am nodweddion yr arddull ac arbrofi gyda'r dechneg cwestiwn ac ateb. Hoffwn ddiolch i Wasanaeth Cerddoriaeth Rhondda Cynon Taf am drefnu hyn.



**Dechrau Canu Dechrau Canmol**

Ar nos Fawrth glawiog roedd grŵp o ddisgyblion ac athrawon wedi mentro i Theatr Soar, Merthyr ar gyfer bod yn rhan o noson Dechrau Canu Dechrau Canol. Roedd hi'n noson ar gyfer codi ymwybyddiaeth i'r Eisteddfod Genedlaethol ac yn gyfle i gyd ganu gyda'n gilydd. Gwych oedd cael y cyfle i ddod at ein gilydd a chanu detholiad o emynau gan gynnwys Pantyfedwen a Dusseldrof. Bydd yr eitemau yn cael eu darlledu ar y rhaglen ar S4C yn fuan.



**Eisteddfod y Cymoedd**

Llongyfarchiadau enfawr i gôr Ysgol Garth Olwg am ennill y gystadleuaeth Côr dan 12 yn Eisteddfod y Cymoedd wythnos ddiwethaf. Daethant yn gyntaf allan o 7 côr. Rydym yn falch iawn o'ch llwyddiant ysgubol! Llongyfarchiadau mawr hefyd i'r ensemble am gipio'r ail wobr.



**Taith i Gastell Caerdydd**

Ar ddiwrnod gogoniant o Hydref aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 1 a 2 ar wibdaith i ymweld â chastell Caerdydd. Cawsant ddiwrnod i'r brenin â thaith dywys ddiddorol iawn o amgylch y castell. Roedd hyn yn sbardun gwych i'n thema'r tymor hwn ar gestyll Cymru.





**Sioe Legally Blonde**

Am brofiad bythgofiadwy! Ers mis Gorffennaf mae'r ysgol wedi bod yn gweithio'n ddiflino er mwyn cynhyrchu sioe 'Legally Blonde'. Mi oedd yn her i geisio cynnwys aelodau o'r ysgol Ganol hyd at yr Ysgol Hŷn ond erbyn i wythnos y sioe agosáu mi roedd pawb yn ysu i berfformio! Yn syml mae stori'r sioe yn seiliedig ar fywyd Elle Woods a'i bwriad i fynychu Aberystwyth er mwyn astudio'r gyfraith gyda'r gobaith o adennill ei chariad. Mi oedd yn sioe llawn mwynhad a



chaneuon oedd yn codi'r ysbryd ac roedd yn fraint o allu bod yn aelod o griw mor frwdfrydig am gynhyrchu sioe! Roedd yn fraint i allu perfformio mewn cynhyrchiad mor gymunedol a chydweithio gyda disgyblion iau'r ysgol ac wrth gwrs fy nghyfoedion ym mlwyddyn 13. Roedd yn bleser i greu cymaint o atgofion ac mi fyddaf yn eu trysori am byth. Rwyf wedi bod yn ddigon ffodus o allu bod yn rhan o'r tair sioe gerdd mae'r ysgol wedi cynhyrchu yn ystod fy adeg yn Ysgol Garth Olwg ac roedd Legally Blonde yn berffaith fel fy sioe olaf yn yr ysgol hon. Rwyf yn hynod o ddiolchgar i bob aelod o staff am eu cymorth a'u hawydd i gynnal y sioe ac mi fyddaf yn cofio'r cyfleoedd yma am byth. Greta Hall Williams Bl13



## Ysgol Garth Olwg (Parhad)



**Cast Sioe Legally Blonde**

**Bendibwmbwls**
Diolch o galon i griw Cyw a Ben Dant am ddod i ffilmio gyda phlant blwyddyn 2 ar gyfer cyfres newydd gyffrous fydd yn ymddangos ar S4C yn fuan. Profiad gwych i'r disgyblion ac edrychwn ymlaen at eich gweld ar y sgrin yn fuan iawn.



**Mewn Cymeriad**
Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 7 modd i fyw yn gwylio sioe Mewn Cymeriad Llion Williams ar daith yr iaith. Roeddent wedi dysgu llwyth am hanes yr iaith Gymraeg ar draws y canrifoedd.



**Sesiwn creu limrigau**
Diolch i Tudur Dylan Jones am ymweld â'r ysgol i ddysgu disgyblion yr Ysgol Uchaf sut mae creu limrigau llwyddiannus. Edrych ymlaen at weld ffrwyth y gwaith yn Eisteddfod Genedlaethol RhCT 2024!



**Ymweld â'r Senedd**
Ym mis Medi eleni fe gafodd Senedd ein hysgol ni gyfle i ymweld â Senedd Cymru ym Mae Caerdydd. Yno fe gafon ni'r cyfle i gael ein cyfarfod cyntaf fel Senedd Ysgol Garth Olwg eleni yn siambr Tŷ Hywel, ble roedd y Senedd arfer cynnal eu cyfarfodydd nhw. Roedd hyn yn gyfle gwych i ni ddod at ein gilydd fel aelodau o bob fforwm a blynyddoedd ysgol. Cafodd llawer o faterion pwysig eu trafod yn ein hamser ni yno a chawson y cyfle i wylio sesiwn cwestiynau'r Prif Weinidog ar ein taith yno oedd yn hynod o ddiddorol ac addysgiadol. Roedd hi'n brofiad gwych i gael cynnal trafodaeth debyg fel ysgol er mwyn pleidleisio dros ba faterion yr ydym am flaenoriaethu eleni ac roedd yn gyfle i ddisgyblion o'r Ysgol Isaf hyd at yr Ysgol Hŷn godi eu llais a rhannu eu barn. Diolch mawr i'n hathrawon ni, Miss Rees a Miss Vye, am drefnu'r profiad anhygoel yma eto eleni! Edrychwn ymlaen at fedru cyd-weithio fel Senedd ysgol y flwyddyn hon.

Mali Williams, bl 13.



**Ymweliad Marcelle Dos Santos a Krissy Jenkins**
Gorffennodd Bl.5 a 6 yr hanner tymor yn gwneud gweithdy cerddorol yn cynhyrchu caneuon wedi ysbrydoli gan dwf cerddoriaeth Swing yn America yn ystod y 1930au. Cyflwynodd Marcelle hanes y gerddoriaeth, tra bod Krissy yn cyflwyno prif nodweddion y gerddoriaeth cyn iddynt gael cyfle i weithio ar Garage Band. Rhoddodd y gweithdy gyfle i ddisgyblion ddathlu effaith a phwysigrwydd y gerddoriaeth i Americanwyr Du yn y 1930au.



# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

**Gohebydd y Mis: Margaret White**

**Merched y Wawr, Cangen Tonysguboriau**
Cafwyd noson fendigedig yn Café 50 ar y 18fed o'r mis yng nghwmni tair siaradwr newydd. Diolch i Helen am drefnu ac am holi'r dair mor synhwyrol a sensitif.
Mae Carol yn dod o Donyrefail ac wrth ei bodd yn darganfod mwy am ei choeden deulu. O'r Efail Isaf y daw Beca ac roedd rhai ohonom wedi'i chlywed yn cyflwyno ei swydd i ni un bore Sul yn y Tabernacl. Esboniodd mai ffeindio gwirfoddolowyr i gadw cwmni i bobl hŷn yn ein cymuned oedd hi'n ei wneud. Mae Judi wedi bod yn aelod o Ferched y Wawr yn y gorffennol ac mae hi newydd ddod adre o Gwpan y Byd yn Ffrainc lle cafodd hi fodd i fyw yn defnyddio ei Chymraeg gyda phobl fel Scott Quinnell.

Cawsom baned a theisen ar ffurf 10 i ddynodi pen blwydd arbennig 'Shw Mae'. Blasus oedd y deisen hefyd! Diolch Eluned.

Os hoffai unrhywun ymuno â ni rydyn ni'n cyfarfod ar y trydydd nos/bnawn Mercher yn y mis. Cysylltwch ag Eluned : mailscott@btinternet.com
Cofiwch am ein cyfarfod nesaf sef Tachwedd 15fed am 4.30 yn Cafe50 'O Teliffant i frodio eliffantod' gydag Eirian Hughes

**Eisteddfod 2024**
Mae Pwyllgor Codi Arian Pontyclun, Meisgyn a Llantrisant Eisteddfod 2024 wedi trefnu Twmpath Dawns fel rhan o Ffair Nadolig Pontyclun ar y 1af o Ragfyr yn Heol yr Orsaf 6 -10 o'r gloch £10 i oedolion a phlant am ddim. Mae gwybodaeth am holl ddigwyddiadau codi arian ar gael ar dudalen Facebook Eisteddfod Rhondda Cynon Taf.

Fe fydd Gwasanaeth Nadolig Merched y Wawr Rhanbarth y De-ddwyrain yn cael ei gynnal yn y Tabernacl Efail Isaf ar 26ain Tachwedd am 2.30. Cangen Tonysguboriau a'r Cylch sy'n gyfrifol am drefnu'r gwasanaeth ac fe fydd casgliad rhydd i godi arian ar gyfer Eisteddfod 2024.









SIOE FFASIWN

Er budd

Eisteddfod Genedlaethol 2024

**Nos Iau 16 Tachwedd 7yh**
**Canolfan Garth Olwg**
**Tocynnau: £10.**
**Oddi wrth: Beti Treharne**
**neu Calon Rhiwbeina**







**Acapela, Pentyrch**
**Mared Williams** – 19 Rhagfyr 2023
Gwefan: acapela.co.uk



